Ar ei ffyddlondeb ef a'i briod hoff i gyfarfodydd yr Eglwys ac i foddion gras, nid oedd ball, a mawr fydd y golled yn enwedig yn y Seiat. Meddai ddawn arbennig i symio'r holl drafodaeth i fyny'n ddestlus a choronî'r cwbl ag ychydig sylwadau byw, clir a thrawiadol. Ymddangosai'r cwbl a wnai mor syml, gorffenedig a hawdd i'w wneud. Ond gwyddai'r cyfarwydd mai ffrwyth cof cyfoethog, meddwl disgybledig, a phrofiad dwfn o bethau ysbrydol ydoedd hyn oll.

Y CYHOEDDWR.

Fel cyhoeddwr yr oedd heb ei hafal. Codai'n dawel ac yn urddasol, ond yn hollol syml a dirodres, ac yna cyhoeddai restr hir o gyfarfodydd yn hollol drefnus, gan ddweud gair pwrpasol y fan yma neu'r fan arall, heb yr un gair ofer o'r dechrau i'r diwedd, ac heb darfu dim ar ysbryd addoli. Heb fod yn ymwybodol o hynny byddai'r gynulleidfa yn mwynhau hyd yn oed "y cyhoeddi" pan gyflawnid y gwaith gan Mr. Evan Evans.

YN EI DEULU.

Yn ei deulu yr oedd yn broffwyd, yn offeiriad ac yn frenin. Y mae ei fab hynaf, Mr. Ivor Evans, M.A., yn bartner yn y ffirm, yn Glerc Heddwch i'w Sir, yn flaenor; ei ferch yn briod i Dr. David Ellis, a'i fab ieuengaf, Capten Ernest Evans, yn Aelod Seneddol. Eto i gyd pan gyda hwy yng nghwmni eu tad teimlech mai plant oeddynt yn ystyr uchaf a gorau'r gair. Yr oedd yn gymaint tad fel y teimlai ei weinidog tuag ato megis tuag at dad, a theimlad ydoedd hwn y cyfranogid ohono gan lu mawr "o blant y Tabernacl," er tyfu ohonynt i oedran gŵr.

Yr oedd yn hoff anarferol o blant. Dyma a'i cadwodd yn ieuanc nes cyrraedd pedwar ugain. Golygfa dlos oedd gweled ei wyrion yn tymblio ar draws ei gilydd o amgylch ei liniau a'i gadair, ac yntau'n wenau i gyd wrth edrych arnynt yn mwynhau eu hafaith a'u hasbri. Pan yn dathlu eu priodas euraid rhoddodd Mr. a Mrs. Evans de i holl blant y Tabernacl, a phlant y tair cangen, Penparcau, Trefechan, a Thanycae. Ac o'r holl ddathlu i gyd, ac er derbyn rhoddion hardd gan yr Eglwys a'r Cyngor Sir, credaf fy mod yn agos i'r gwir pan yn dywedyd mai'r hyn a fwynhaodd fwyaf oedd gweled y plant yn chwarae ar ôl te ar gae chwarae'r dref.

PROFIADAU.

Nid gwiw gorffen hyn o ysgrif heb gyfeirio at un peth arall. Gwyddai ef a'i briod beth oedd dioddef rhai o siomedigaethau a phrofedigaethau chwerwaf bywyd. Ni adawodd yr angau glas hwy heb ymweled

a hwy a'u haelwyd. Dyma a'u gwnai mor llawn o gydymdeimlad â phawb mewn adfyd a phrofedigaeth. Eto i gyd yr oeddynt mor ddedwydd, y naill yn y llall, nes bod, er yn hollol ddifwriad ac yn anymwybodol, yn esiampl i'r holl dref o ddedwyddwch priodasol. Dywedodd fwy nag un wraig a merch wrthyf, "yr oeddynt yn gariadon i'r diwedd." Nid oedd Mrs. Evans flwyddyn gyfan yn ieuengach na'i phrod. Mewn dyddiau pan y mae cysegredigrwydd y cartref a'r aelwyd mewn perygl, yr oedd hapusrwydd a dedwyddwch priodasol Mr. a Mrs. Evans yn *object-lesson* i ieuencid y dref. Dedwydd y gŵr y mae ei fywyd yn berarogl, a'i ddylanwad anymwybodol er daioni y tu hwnt i bob cyfrif. Pa ryfedd mai gwerthfawr gan yr Arglwydd farwolaeth ei saint Ef?

Darogenir drwg i hen eglwys y Tabernacl o golli'r fath ŵr. Gwir na wyddom eto faint ein colled: ond hyn a wyddom, mai dymuniad dyfnaf ein tad, ein brawd, a'n cyfaill ymadawedig ydoedd, ie ac ydyw, am i'r Arglwydd na adawodd yr hen eglwys hon erioed heb ddynion da bucheddol a duwiol i arwain, roddi iddi eto yn ôl golud ei ras gyflenwad o ddynion "o gyffelyb feddwl." Y mae gennym ni Dduw, os bydd raid, a fedr godi o feini blant i Abraham. Diolchwn a bendigwn Dduw am roddi i ni y fath arweinydd doeth, y fath weithiwr difefl, a'r fath was ffyddlon. Gobeithiwn yn yr Arglwydd.

The Lord takes away His workmen
But carries on His work.

ERTHYGL GAN Y DIWEDDAR BRIFATHRO
J. H. DAVIES, M.A., YMDDANGOS-
ODD YN "Y DRYSORFA" YN 1915.

CAFODD llawer o leygwyr da a dylanwadol y fraint o wasanaethu y Methodistiaid Calfnaidd o amser y Tadau hyd heddiw, ac ond odid nad yw ein Cyfundeb ni wedi manteisio mwy ar weithgarwch lleygwyr na'r enwadau eraill yn ein gwlad. Cyfyd hyn oddi wrth y ffaith fod lle amlycach i swydd blaenor wedi bod yng nghyfundrefn ein henwad ni oblegid iddo dderbyn egwyddor y weinidogaeth sefydlog yn ddiweddarach na'r enwadau eraill. Erbyn heddiw, fodd bynnag, y mae'r gweinidog sefydlog wedi meddiannu rhan fawr o diriogaeth yr hen flaenoriaid gynt, ac y mae tuedd yn y blaenor i gilio yn raddol i'r cysgodion. Y mae galwadau newydd arno hefyd i wasanaethu ei oes mewn cylchoedd mwy cyhoeddus, os llai ysbrydol.

Er hynny, erys yn ein plith rai lleygwyr sydd yn cadw yr hen draddodiadau yn fyw, ac yn olynwyr teilwng i'r hen flaenoriaid a fu yn ystod y ganrif ddiweddaf yn arweinwyr ysbrydol, yn athrawon moes, ac yn gynllunwyr trefn yn ein heglwysi. Un o'r cyfryw yw Mr. Evan Evans. Cafodd ei fagu yn eglwys y Tabernacl, yn Aberystwyth, mewn amser pryd yr oedd sŵn yr hen ddadleuon diwinyddol heb lwyrr gilio; ac er nad yw yn ŵr dadleugar, glynodd y gwirioneddau mawr oedd wrth wraidd y dadleuon yn

ei gôf, ac y mae hyd heddiw yn parhau i ddarllen ac astudio y llyfrau gorau ar ddiwinyddiaeth. Nid rhyfedd felly iddo deimlo mawr sêl dros yr Ysgol Sul. Bu am lawer o flynyddoedd yn Llywydd y Cyfarfod Dau-fisol yn y cylch, ac oherwydd ei fedrusrwydd galwyd arno yn fynych iawn i wasanaethu fel arholydd cyhoeddus. Bellach, y mae efe wedi ei ethol yn olynnydd i'r Hybarch Thomas Levi fel Llywydd Pwyllgor yr Ysgol Sul yn y Cyfundeb, ac anhawdd fuasai cael neb mwy cymwys i'r gwaith.

Derbyniwyd Mr. Evans yn aelod o Gyfarfod Misol Gogledd Aberteifi fel pregethwr tua deugain mlynedd yn ôl, a bu am flynyddoedd yn gwasanaethu'r eglwysi yn y pulpud yn rhodd ac yn rhad.

Yn y flwyddyn 1892 penodwyd ef yn Drysorydd Trysorfa Gweinidogion y Deheudir. Yn yr un flwyddyn dewiswyd ef yn Ysgrifennydd y Pwyllgor Llyfrau,—ac yn y flwyddyn ddilynol yn Ysgrifennydd y Pwyllgor Ariannol. Rai blynyddoedd yn ôl rhoddodd y ddwy swydd ddiweddaf i fyny; a manteisiwyd ar y cyfle i dalu teyrnged gynnes o ddiolch iddo am ei wasanaeth gwerthfawr.

Gwna lawer o waith mewn cylchoedd cyhoeddus hefyd. Efe yw Clerc Cyngor Sirol Ceredigion, swydd sydd yn gofyn llawer o amynedd, doethineb, a gwybodaeth.

Ystyrir ef yn brif awdurdod ar hanes y dref; ac yr ydym yn deall fod yn ei fryd ddwyn allan cyn bo hir lyfr yn cynnwys nifer o'i ysgrifau ar y pwnc hwn.

Ganwyd Mr. Evans yn y flwyddyn 1850. Bu ei dad o'r un enw yn flaenor doeth a phwylllog yn eglwys y Tabernacl am lawer o flynyddoedd. Cafodd

bob manteision addysg oedd o fewn cyrraedd ei rieni, a bu am dymor yn ysgol yr enwog John Evans, athraw Dr. Edwards y Bala. Ond, os nad ydym yn camgymeryd, nid yw dyled Mr. Evans i'r gwŷr da fu yn ei hyfforddi yn ei ieuenctid yn fawr. Rhoddodd ei fryd ar ddarllen llyfrau ei hunan, a mynnodd eu deall yn drwyadl. Magodd feddwl annibynnol, a dengys ei areithiau ar bynciau crefyddol a gwladol ôl sylw manwl a gwreiddiol.

Cychwynnodd ei yrfa fel clerac yn swyddfa Mr. Frederick Roberts, Cyfreithiwr, Aberystwyth; a chymaint oedd parch Mr. Roberts iddo, fel y mynnodd, ar derfyn ei wasanaeth fel clerac, ei wneuthur yn bartner yn y *firm*. Erbyn heddiw nid oes un *firm* o gyfreithwyr uwch ei pharch trwy Ganolbarth Cymru na "Roberts & Evans." Y mae'n wir na welir mo'u henwau ynglŷn ag achosion yn y llysoedd lleol: nid ydynt yn rhoddi cymorth i amddiffyn na chosbi drwgweithredwyr. Ond y mae gan y wladlwyr ymddiriedaeth ynddynt, ac y mae eu cyngor yn ben ar bob dadl. Anghofir weithiau fod gan gyfreithwyr, yn anad un dosbarth o bobl, gyfleusterau i wneuthur daioni yn gystal a drygioni; a gellir yn ddibetrus ddywedyd fod Mr. Evans wedi manteisio yn fawr ar y cyfleusterau hyn i lesoli cymdeithas.

Un o nodweddion amlycaf Mr. Evans fel trefnydd a siaradwr yw ei allu i gyfleu ei syniadau mewn ychydig frawddegau clir. Clywsom ef lawer gwaith, ar ôl gwranddo ar drafodaeth faith mewn pwyllgor neu gyfarfod cyhoeddus, yn cael gafael ar gnewyllyn y peth oedd gerbron, ac yn trin y pwnc yn y fath fodd ag i derfynu'r ddadl. Nodwedd arall amlwg

iawn yn ei gymeriad yw ei allu i wneuthur llawer o waith mewn ychydig o amser. Y mae yn un o'r dynion prysuraf yng Nghymru, eto y mae yn cyflawni ei holl orchwylion yn ddi-drwst a chyflym, a thrwy hynny yn cael amser i gario allan ei ddyletswyddau fel blaenor a gŵr cyhoeddus. Ni welir ef yn odid un man os na bydd neges ganddo; ond lle bydd ganddo neges, bydd yn sicr o fod yno.

Rai blynyddoedd yn ôl ysgrifennodd Mr. Levi erthygl fer ar waith Mr. Evans, ac ni allwn wneuthur yn well na dyfynnu rhan ohoni fel diwedd glo :

“ Mae Mr. Evans yn ddyn hynaws a charedig, ac yn foneddwr mewn ysbryd ac ymddygiad. Mae yn ddyn llawn a defnyddiol mewn amrywiol gyfeiriadau. Mae wedi darllen yn helaeth, ac i bwrpas, nid yn unig lyfrau cysylltiedig â'i alwedigaeth, ond y llyfrau gorau ar ddiwinyddiaeth. Y mae yn hyddysg yn yr Ysgrythurau, a chanddo olygiadau clir ar bynciau yr Athrawiaeth Gristionogol. A mwy na'r oll, y mae'n Gristion o gymeriad pur a difrycheulyd, a'r Arglwydd Iesu yn brif astudiaeth ei fywyd.”

CYDYMDEIMLAD A GWERTHFAWROGIAD.

YNG Nghymanfa Gyffredinol Eglwys Methodistiaid Calfinaidd Cymru (neu Eglwys Bresbyteraidd Cymru) a gyfarfu yn y Tabernacl, Aberteifi, ar Mehefin 5—7, 1934, penderfynwyd ynglŷn â marwolaeth Mr. Evan Evans, Aberystwyth, Trysorydd y Gymanfa Gyffredinol:—

“ Dymunwn ddatgan ein gwerthfawrogiad diffuant o wasanaeth Mr. Evan Evans, Aberystwyth, i'r Cyfundeb fel Trysorydd y Gymanfa Gyffredinol. Y mae cylchoedd eraill wedi rhoddi mynegiant i'w gwerthfawrogiad o'i wasanaeth i'n Heglwys ynglŷn a Phwyllgor yr Ysgol Sul, Pwyllgor y Llyfrau a Llenyddiaeth, y Pwyllgor Ariannol, &c.

“ Gorffwys arnom ni fel Cymanfa i ddiolch i'r Arglwydd am ei wasanaeth arbennig i ni fel Trysorydd. Y mae i'r swydd hon draddodiadau uchel, a chyflawnodd Mr. Evan Evans holl waith y swydd gyda medrusrwydd a ffyddlondeb mawr.

“ Ein gweddi ydyw ar i nodded yr Arglwydd aros dros ei annwyl briod a'r teulu.”

Cymerwyd o Gofnodion Cymanfa Gyffredinol Eglwys Methodistiaid Calfinaidd Cymru (neu Eglwys Bresbyteraidd Cymru).

D. CUNLLO DAVIES,

Prif Ysgrifennydd y Gymanfa.

YNG Nghymanfa Gyffredinol Eglwys Methodistiaid Calфинаidd Cymru (neu Eglwys Bresbyteraidd Cymru) a gyfarfu yn y Tabernacl, Aberteifi, ar Mehefin 5, 6, 7, 1934, penderfynwyd, ar gyflwyniad Adroddiad yr Ysgol Sul yn y geiriau sy'n dilyn:—

“ Dymunwn roddi ar gof a chadw ein hymdeimlad o'r golled fawr a gafodd y Pwyllgor hwn, ynghydag eraill o Bwyllgorau ein Cyfundeb, yn arbennig y Pwyllgor Llyfrau (a berthyn yn ei waith mor agos i'r Pwyllgor hwn, ac y bu'n Ysgrifennydd iddo am flynyddoedd lawer), drwy farwolaeth ein hannwyl frawd a thad, Mr. Evan Evans, Aberystwyth. Ni chafodd unrhyw ran o waith Teyrnas ein Harglwydd feddi'n helaethach o ffrwyth ffyddlondeb ac ymroddiad, barn a phwyll, Mr. Evans na'r Ysgol Sul. Parhaodd i'w mynychu hyd ei wythnosau olaf. Bu'n aelod o'r Pwyllgor hwn am flynyddoedd lawer, ac yn Gadeirydd iddo am oddeutu ugain mlynedd. Yr oedd Mr. Evans yn foneddwr wrth natur, a bu ei foneddigeiddrwydd, yn ogystal â'i farn dda a'i wel-ediad clir, yn gymorth gwerthfawr i'r Pwyllgor yn ei waith. Diolchwn i Dad pob dawn am ei roddi inni cyhyd, a gweddiwn am iddo roddi inni eto rai o gyffelyb ysbryd.”

Cymerwyd o Gofnodion Cymanfa Gyffredinol Eglwys Methodistiaid Calфинаidd Cymru (neu Eglwys Bresbyteraidd Cymru).

D. CUNLLO DAVIES,

Prif Ysgrifennydd y Gymanfa.

GALAR AM FAM.

*Llinellau a gyfansoddwyd ar yr achlysur o farwolaeth
MRS. MARTHA EVANS, Powell Street, Aberys-
twyth, ddydd Llun, Gorffennaf 2, 1877, yn 60
mlwydd oed.*

“Ymostyngais mewn galarwisg, fel un yn galaru
am ei fam.”—Salm xxxv. 14.

DISTAWRWYDD! UNIGEDD! mamaethod teimladau
Na all yr un iaith byth eu gwisgo mewn geiriau,
O dan eich magwraeth 'rwy'n rhoddi fy nghalon,
Sy'n llwythog o alar, a chlaf gan archollion!
I chwi y diolchaf am fodd i alaru,
A thywallt fy nagrau, heb neb yn cythryblu,
A chlywed fy nghalon yn cwynfan ychydig,
I neb ond fy hunan. O awr fendigedig!

Ar ôl hwylio ei llestr mor deg am flynyddau,
Ac ymladd mor wrol â stormydd a 'thonnau,
Pwy dybiodd y torrai ei rhwyfau *ar unwaith*,
Mai suddo'n ddisymwth wnai'm Mam mewn marw-
olaeth!

Dymunwn am storfa i gadw pob atgof
Sydd gennyf amdani, rhag myned yn angof;
A chasglu'r gweddillion sydd eto yn nofio,
Berthynent i'r llestr sydd newydd ymsuddo.

Mor fedrus yw angau i ddatod y rhwymyn
Sy'n cydio serchiadau y Fam am y plentyn;
Er cryfed y plethwyd rhai hyn am fy nghalon,
Un ergyd gan angau a'u torrodd yn yfflon!
O'm mewn 'rwyf yn teimlo rhyw wagter anhyfryd,
Fel pe wedi colli rhan helaeth o fywyd:
Pa ryfedd? ai nid yw Mam annwyl a thyner
Yn rhan fawr o fywyd y teulu bob amser!

I mi mae'r amgylchiad fel enfys *foreol*,
Sy'n argoel i ddynion o stormydd dyfodol;
A d'wed y daw llawer o hiraeth a chwithdod,
Anghysur, a gofid, a loes, i'm cyfarfod:
I'm Mam bu'r amgylchiad fel enfys *prynhawnol*,
Ymddengys 'rol diwrnod ystormus gerwinol,
Yn argoel o ddiwedd pob gofid a blinfyd,
Ac ernes o hindda, tawelwch, a gwynfyd!

YR ABERTH A WNAETH Y TADAU YM-
NEILLTUOL, A'N DYLETSWYDD YN
WYNEB HYNNY.

Erthygl gyfranwyd gan Mr. Evans i'r "Drysorfa"
yn 1900.

Dwy elfen bwysig mewn Ymneilltuaeth ydynt pregethiad yr Efengyl gan ddynion heb fod mewn Urddau Eglwysig, a chynhaliaeth crefydd gan roddion gwirfoddol ei phroffeswyr, ac y mae dros dri chan mlynedd er pan roddwyd y mynegiad cyntaf i syniadau felly ynglŷn â Chymru.

John Penry oedd y cyntaf i ddadlau dros Weini-dogaeth gan ddynion Diurddau. Ganwyd Penry yn agos i Langammarch yn y flwyddyn 1559. Pan yn fachgen 19 mlwydd oed yr oedd yn efrydydd llwyddiannus yng Nghaergrawnt. Yn 27 oed yr oedd yn bregethwr poblogaidd ym Mhrifysgol Rhydychen, lle y daeth i gysylltiad â rhai Piwritaniaid, yr hyn fu yn foddion i lenwi ei enaid â thosturi at gyflwr isel a thywyll ei genedl ar y pryd, ag awydd angerddol i ddwyn Efengyl bur a syml o fewn cyrraedd y werin Gymreig. Yn ei ymgais i gyrraedd yr amcan hwnnw gorfu iddo siarad yn llym am esgobion ac offeiriaid Cymru, a dwyn cyhuddiadau pwysig yn eu herbyn. Ceisiodd drwy y Senedd, a chyfryngau eraill, i gael moddion i efengyleiddio Cymru, canlyniad yr hyn fu ei ddodi mewn carchar, ac ar ôl rhith o braw, ei roddi i farwolaeth yn ddyn ieuanc 37 mlwydd oed. Yr unig gyhuddiad ddygwyd yn ei erbyn oedd iddo ddef-

nyddio iaith gref yn erbyn awdurdodau yr Eglwys yng Nghymru, a cheisio cael dynion heb eu hurddo gan esgob i ddysgu trigolion Cymru yn ffordd iach-awdwriaeth, mewn geiriau eraill, iddo goleddu a thraethu syniadau sydd yn gorwedd wrth wraidd Ymneilltuaeth; ac ar gyfrif ei olygiadau a'r aberth a wnaeth er eu mwyn rhaid edrych ar John Penry fel rhagflaenydd Ymneilltuaeth Cymru.

Ymhen rhyw ddeugain mlynedd ar ôl ei farwol-aeth meddianwyd amryw o Offeiriaid Eglwys Loegr yng Nghymru ag ysbryd cyffelyb i eiddo Penry, a gorfu iddynt hwythau fel yntau ddioddef llawer oherwydd hynny. Amlygwyd yr ysbryd hwn ganddynt mewn cysylltiad a dau Lyfr sef Llyfr y Chwaraeon a'r Llyfr Gweddi Cyffredin,

Llyfr y Chwaraeon oedd Lyfr neu Genadwri oddi wrth Frenin Lloegr a Chymru i'w harfer ar y Saboth, megis dawnasio, neidio a rhedeg; ynghyda chyfarwyddiadau am y modd a'r adeg i'w dwyn ymlaen. Penderfynodd Charles y iaf i'r Llyfr gael ei ddarllen gan yr offeiriaid yn holl eglwysi y deyrnas er mwyn cefnogi difyrrwch ymhlith ei ddeiliaid, a'u cymhwyso i fod yn wasanaethgar iddo mewn rhyfel, pan fyddai galw am filwyr. Bu darllen y Llyfr a'r gefnogaeth a roddwyd drwy hynny i arferion o'r fath ar y Saboth yn foddion i arwain i lygredigaeth mawr. Rhagwelodd rhai offeiriaid hynny yng Nghymru a gwrthodasant yn bendant ddarllen y Llyfr yn eu heglwysi, ac yn eu gwrthodiad gosodwyd i lawr sylfaen Ymneilltuaeth Cymru.

Yn fuan ar ôl y gorchymyn brenhinol i ddarllen y Llyfr, cafodd Esgobion Tyddewi a Llandaf, ar

ôl ymchwiliad manwl, fod rhai offeiriaid yn eu hesgobaethau yn gwrthod gwneuthur hynny; dygwyd mesurau ar unwaith yn eu herbyn yn y Llysoedd Eglwysig, a chymerwyd eu bywioliaethau oddi arnynt. Ar ôl colli eu hawl i bregethu yn eu heglwysi dechreuwyd cynnal cyfarfodydd crefyddol mewn tai anedd. Cymerodd hyn le yn 1633 a 1634. Yr offeiriaid mwyaf blaenllaw oeddynt, William Wroth, periglor Llanfachres yn agos i Chepstow; William Erbery, Ficer Caerdydd; Walter Cradog, curad gydag Erbery; Marmaduke Mathews, Abertawe; Richard Symonds, Abergavenny; Ambrose Mostyn, a Henry Walter. Y cyntaf yr ymosodwyd arno oedd William Wroth, Cristion disglaer, a phregethwr nerthol. Ar ôl colli ei fywioliaeth, dechreuodd Wroth bregethu yn ei gartref, a bu ef yn foddion i sefydlu eglwys yno, yr hon debygid yw yr Eglwys Ymneilltuol gyntaf yng Nghymru. Walter Cradog oedd y mwyaf galluog a thalentog ohonynt. Bu Cradog yn pregethu o flaen y Senedd, ond gan ei fod yn ieuanc a churad yn unig, yr oedd yn hawddach i'r Esgob ymddwyn tuag ato na'r lleill. Cymerwyd ei drwydded oddi arno, a theithiodd lawer trwy Gymru ar ôl hynny, gan bregethu lle bynnag yr elai. Ymhlith y rhai a argyhoeddwyd drwy ei weinidogaeth ceir Morgan Llwyd o Wynedd, y llenor Ymneilltuol cyntaf.

Yn ystod y rhyfel rhwng y Brenin a'r Senedd, tua'r flwyddyn 1642, sef wyth mlynedd ar ôl dechreuad yr erledigaeth ar yr offeiriaid a enwyd, bu yn helynt blin arnynt ac ar eu dilynwyr oherwydd eu bod yn gorfod yn ôl tystiolaeth eu cydwybod gyd-

ymdeimlo a hawliau y Senedd, tra yr oedd yr holl esgobion ac offeiriaid yr Eglwys, a mawrion y wlad, yn bleidiol i'r Brenin. Gorfu i amryw o'r offeiriaid a drowyd o'r Eglwys ffoi o Gymru; i rai o drefydd Lloegr; ac arferwyd llawer o amharch tuag at y rhai arosodd yng Nghymru.

Ar ôl i Charles yr zil ddod i'r orsedd dechreuodd erledigaeth drom ar holl Anghydfurfwyr Prydain, ac ar Gymru y disgynnodd yr erledigaeth honno gyn- taf a thrymaf. O'r gweinidogion neu yr offeiriaid oedd yn cadw at burdeb yr Efengyl Vavasor Powell gafodd y driniaeth fwyaf arw, am y rheswm mai efe erbyn hyn oedd y pregethwr mwyaf cyhoeddus ohon- ynt, a'r mwyaf galluog o'r Tadau oddigerth Walter Cradog. Bu farw yn 1670, ar ôl bod mewn tri ar ddeg o garcharau gwahanol, a threulio yr un mlyn- edd ar ddeg olaf o'i fywyd bron yn ddifwlch mewn carchar ar gwynion hollol ddisail.

Pasiwyd y Ddeddf ynglŷn â'r Llyfr Gweddi Cyff- redin ym Mai 1662, a daeth i weithrediad yn Awst yr un flwyddyn. Amcan y ddeddf hon oedd peri na fyddai i neb ddal bywioliaeth yn yr Eglwys oddigerth iddo gael ei ordeinio gan esgob a chydsynio â holl gynnwys y Llyfr Gweddi Cyffredin. Gofynnai hefyd oddi wrthynt lw o ufudd-dod i awdurdodau yr Eg- lwys, ac i beidio pleidio unrhyw gyfnewidiad yn yr Eglwys na'r Wladwriaeth. Mewn canlyniad i'r ddeddf hon yr oedd yn rhaid i bob gweinidog mewn Urddau Eglwysig gaethiwo ei hun i'r Brenin a'r Esgob, neu os gwrthodai wynebu ar dlodi, ac eisiau, a charchar. Dewisodd dwy fil o offeiriaid Prydain yr olaf, ac yn eu plith 106 o offeiriaid Cymru. Tair

blynedd ar ôl Deddf Cydffurfiad, pasiwyd deddf arall, yr hon a bwysai yn drymach eto ar y Tadau Ymneilltuol, yr hon a adnabyddir fel y Five Mile Act. Yn ôl y ddeddf hon nid oedd neb o'r offeiriaid a wrthodai gydffurfio i ddod o fewn pum milltir i'r plwyfydd a'r trefydd lle'r oeddynt yn flaenorol wedi bod yn gweinidogaethu ynddynt, o dan ddirwy o ddeugain punt. Pwysai y ddeddf hon yn drymach ar y Tadau na Deddf Cydffurfiaeth, gan ei bod yn amcanu rhwystro pob cyfathrach rhyngddynt a'u praidd. Amcan Deddf Cydffurfiaeth oedd amddifadu y Tadau o'u bywioliaethau, ond amcanai y Five Mile Act eu hamddifadu o'u rhyddid i bregethu yr Efrog.

Dylid crybwyll un ddeddf arall, gwyneb yr hon oedd nid yn gymaint ar y gweinidogion ag ar eu dilynwyr, sef y Conventicle Act, 1664. O dan y ddeddf hon nid oedd mwy na phump o bersonau dros 16 oed i ymgynnull at ei gilydd i addoli oddigerth aelodau o'r un teulu. Am y trosedd cyntaf yr oedd dirwy o bum punt neu dri mis o garchar; am yr ail drosedd, deg punt o ddirwy neu chwe mis o garchar; ac am y drydedd, can punt o ddirwy neu garchar am oes, ac yr oedd y person a ganiatai cyfarfod o'r fath a wa-herddid, hyd yn oed mewn ysgubor, yn agored i gosb cyffelyb. Gallai un ynad roddi y ddeddf hon mewn gweithrediad, a hynny ar dystiolaeth un person yn unig. Er mwyn gorfodi yr ynadon i weithredu byddai pob ynad a wrthodai hynny ar ôl derbyn hysbysrwydd gan ryw un fod y ddeddf wedi ei throddu, yn agored i ddirwy o gan punt, a rhoddid y drydedd ran o bob dirwy i'r person a ddygai yr achwyniad

gerbron yr ynad. Y canlyniad o hynny fu masnach fawr mewn llunio achwynion disail gan ddynion diegwyddor; yn unig er mwyn sicrhau rhan o'r dirwyon, a llanwyd carcharau Cymru gan Anghydfurfwyr diniwed y wlad, ac ysgubwyd eu meddiannau i dalu y dirwyon. Eto er y llymder eithafol ynglŷn â gweinyddiad y ddeddf orthrymus hon, yr oedd llawer o'r Anghydfurfwyr yn barod i ddioddef yn dawel yn hytrach na bod yn amddifad o foddion cynhaliaeth ysbrydol i'w heneidiau.

Symudwyd llawer o'r blinderau hyn yn y flwyddyn 1689, pryd y pasiwyd Deddf y Goddefiad, yr hon a ystyrir fel Breinlen rhyddid crefyddol. Ni ddarfu i'r ddeddf hon ddileu y deddfau caethiwus a nodwyd eisoes, ond datgan yn unig nad oeddynt i'w gweinyddu yn erbyn neb fyddai yn cymryd llw o gydnyddiaeth i uwchafiaeth y Goron, ac yn gwneud datganiad yn erbyn Traws-sylweddiad.

Rhaid rhoddi cam go fawr yn hanes Cymru cyn y cyfarfyddwn â dynion o gyffelyb ysbryd i Wroth, a Cradog, a Powell. Bu rhai offeiriaid duwiol yma yn gresynu dros sefyllfa dywyll y boblogaeth, ac yn gwneud llawer drosti, ond nid ymddangosodd rhai cyffelyb i'r Tadau a enwyd hyd 1735, sef, adeg y Diwygiad Methodistaidd, adeg Howell Harris, Daniel Rowland, Williams Pantycelyn, a Howell Davies, olynwyr teilwng i Wroth, a Cradog, a Powell. Fel y tadau gan mlynedd o'r blaen yr oedd y Tadau Methodistaidd yn aelodau o'r Eglwys Wladol, a thri ohonynt mewn Urddau Eglwysig.

Ni ellir dweud fod y Tadau Methodistaidd wedi dioddef cymaint a'r Tadau Ymneilltuol oddi wrth

ddeddfwriaeth, ond gorfu iddynt ddioddef yn drwm mewn cysylltiadau eraill. Yr oedd eu teithio parhaus yn flin, y bygythion oddi wrth ynadon ac eraill yn feichus, ond y driniaeth fwyaf anhawdd i'w hysbryd ei ddwyn oedd gwrthwynebiad yr esgobion a'r offeiriaid, ynghyda dirmyg eu brodyr crefyddol. Er hynny y maent yn parhau mewn math o gysylltiad â'r Eglwys. Nid oeddynt fel y Tadau Ymneilltuol yn fodlon i ymneilltuo a ffurfio eglwysi Ymneilltuol o'r dychweledigion; yn hytrach cynghorent eu dilynwyr i lynu wrth yr Eglwys, ac eto, dyma'r dynion a orfodwyd gan yr Eglwys a garent mor fawr, ac yn erbyn llawer o ragfarn Ymneilltuol eu hoes, nid yn unig i roddi bodolaeth i enwad newydd, a hwnnw y cryfaf ohonynt erbyn hyn, ond hefyd i atgyfodi Ymneilltuaeth Cymru, a pheri symbyliad ynddo sydd wedi parhau hyd yn hyn, ac wedi bod yn foddion i ddyrchafu nid yr Ymneilltuwyr yn unig, ond y cwbl o Gymru mewn addysg a moesau a chrefydd, i gyflwr na fu ynddo erioed o'r blaen.

Yr oedd y Tadau yn ddynion o ddysg a diwylliant, y cwbl a enwyd wedi eu haddysgu ym mhrif ysgolion y Deyrnas. Cafodd Ymneilltuaeth felly ei gychwyn yma gan oreugwyr y wlad, a rhoddodd y goreugwyr hynny eu gwasanaeth gorau o'i phlaid.

Y gair gorau hwyrach i osod allan nodwedd eu gwaith ydyw y gair sydd yn y testun—aberth. Ar aberth y Tadau y mae Ymneilltuaeth Cymru heddiw fel adeilad eang cadarn yn sefyll; byddai yn amhosibl cael sylfaen well, ac ni wnai un lai y tro. Nid aberth er mwyn Ymneilltuaeth ydoedd aberth y Tadau; ond er mwyn yr hyn sydd yn fwy nag Ymneilltuaeth.

Aberthu er mwyn Cristnogaeth ddarfu y Tadau. Cychwynnwyd Ymneilltuaeth yng Nghymru fel moddion i bregethu yr Efengyl, yr hyn a waherddid i'r Tadau wneud yn yr Eglwys Wladol. Y mae sefydliad Ymneilltuaeth yn hyn yn wahanol i gychwyniad enwadaeth yng Nghymru. Cyfododd yr enwadau Ymneilltuol yma am fod Cristnogion yn methu cydolygu ar rai o wirioneddau crefydd. Peth gwirfoddol hollol, heb ddylanwadau oddi allan barodd i'r enwadau gwahanol gyfodi yma. Hwyrach y gallai Ymneilltuaeth gyfodi mewn modd cyffelyb. Pe na bai y deddfau y cyfeiriwyd atynt, a'r gorthrwm ynglŷn â'u gweinyddiad, mae yn ddigon posibl y deuai dynion onest a chydwybodol o fewn yr Eglwys Wladol i weled rywbryd yn wirfoddol mai gwell fyddai datod y cwlwm sydd rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth, ac mewn canlyniad i gychwyn Ymneilltuaeth; ond llwybr gwahanol hollol, ac un mwy rhagorol a ddefnyddiodd Rhagluniaeth i wneud hynny yng Nghymru. Mewn erledigaeth y ganed Ymneilltuaeth yma, ac y mae yn gryfach ac yn burach heddiw oherwydd y dioddef a'r aberthu o du y Tadau er ei mwyn.

Er fod ysbaid maith o amser wedi myned heibio er yr aberthu o du y Tadau, y mae a fynno yr aberth hwnnw â ni heddiw: ac y mae yn ein gosod dan ddyled iddynt,—dyled nad yw yn hawdd ei thalu. Y mae dyled arnom i gadw eu henwau yn fyw, a gosod bri ar eu gwaith. Gyda gofid rhaid cyfaddef nad yw trigolion Cymru heddiw mor hyddysg yn hanes eu gwlad a'i chymwynaswyr ag y dylent fod. Y mae trefniadau addysg hyd yn hyn yn gofyn am i blant

Cymru wybod mwy am wroniaid Lloegr a gwledydd eraill nag am wroniaid eu gwlad eu hunain. Yr oedd John Penry yn wron, a Howell Harris hefyd. Gwroniaid oedd y Tadau y cyfeiriais atynt i gyd—Gwroniaid y Ffydd—ac nid ydynt llai o wroniaid am y rheswm mai ar faes yr Efengyl yr amlygwyd eu gwrhydri, na'r rhai ddaethant yn wroniaid ar faes y gwaed.

Y mae gennym ddwy ddyletswydd amlwg i'w cyflawni ynglŷn â'r Tadau, sef yn (1) Gwerthfawrogi eu hargyhoeddiadau, ac yn (2) cyfranogi o'u hysbryd. Dynion o argyhoeddiadau cryfion oedd y Tadau i gyd; teimlent yn gryf am i Efengyl bur a syml gael ei phregethu a'i chredu: teimlent hefyd nad oedd hawl gan na Brenin nac Esgob i ymyrryd â'u gwaith o gyflwyno Efengyl felly i'w cydwladwyr. Edrychent ar ymarferiadau crefyddol fel mater rhwng dyn a Duw, heb ymyriad o eiddo unrhyw allu tu allan, pa un fyddo ai gwladol ai Eglwysig, ac y mae yn rhwymedig arnom i werthfawrogi argyhoeddiadau felly, a glynu yn dynn wrthynt.

Y mae Ymneilltuaeth eto yn gyfrwng cyfaddas i gyflwyno Efengyl syml i drigolion Cymru. Y mae hefyd yn gwrthdystio yn erbyn galluoedd i ymyrryd â phethau sydd yn ymwneud â chydwybod ac â Duw, ac oherwydd hynny, rhaid i ni barhau yn ffyddlon i egwyddorion Ymneilltuaeth, ac yn enwedig yn wyneb y llwyddiant sydd y dyddiau hyn ynglŷn â Defodaeth, a'r hawliau a wneir gan ddsbarth lluosog a dylanwadol yn yr Eglwys Sefydledig. Hanfod Defodaeth a Phabyddiaeth ydyw bodolaeth cyfryngau allanol rhwng dyn a Duw yn eu cysylltiadau mwyaf cysegredig. Offeiriaid i reoli barn a chrediniaeth

y werin—hawlia fod un dyn am ei fod mewn swydd neilltuol yn meddu awdurdod i ddweud wrth ei gyddyn pa beth y mae i'w gredu a pha beth y mae i'w wneud ac i beidio wneud. Tuag at i ni fod yn ffyddlon i'r Tadau Ymneilltuol, rhaid i ni wrthdystio yn erbyn hawliau felly yn y cysylltiadau pwysig yma. Y gydwbybod yn unig sydd i lywodraethu achosion rhwng dyn a Duw, ac y mae honno yn diriogaeth rhy gysegredig i na Brenin na Senedd, Esgob nac Offeiriad, i ddod o fewn ei therfynau.

Dyletswydd arall sydd gennym ydyw cyfranogi o ysbryd y Tadau, sef ysbryd i ddioddef ac i weithio; ysbryd i wasanaethu eraill ac i aberthu er mwyn hynny. Er mwyn gwasanaethu y mae yn rhaid aberthu, ac y mae pob aberth yn fath o wasanaeth. Y mae aberth yn golygu rhywun neu rhyw beth heblaw yr aberthwr. Y gwrthwyneb i hunangais ac hunanles ydyw aberth, ac y mae ysbryd o'r fath, y gorau a all byth ein meddiannu. "Oni syrth y gronyn gwenith i'r ddaear a marw hwnnw a erys yn unig, eithr os bydd efe marw, efe a ddwg ffrwyth lawer." Dyna'r ddeddf mewn byd uwch na'r un naturiol, er mwyn ennill rhaid colli; er mwyn derbyn rhaid rhoi; er mwyn gwasanaethu rhaid aberthu. Y mae'r ysbryd hwn yn cynnwys gweledigaeth glir o ddyletswydd. Gall llawer o rwystrau fod ar ffordd cyflawni y dyletswydd. Yr oedd llawer ar ffordd y Tadau; teithio, dirmyg, dioddef carchar, ond yng ngrym eu hysbryd gwrol, hunanaberthol, taflent yr oll o'r neilltu gyda diystyrwch.

Y mae eisiau ysbryd cyffelyb heddiw. Ni allwn ei ddwyn yn yr un cyfeiriad a'r Tadau, ond gall llond

gwlad o bobl yfed o'u hysbryd—ysbryd i fychanu anawsterau, i ddiystyru esmwythyd, i orchfygu rhwystrau; ysbryd i deimlo yn gryf oherwydd ein dyletswyddau, ac ysbryd penderfynol i'w cyflawni—ac fel y dywedwyd wrth yr Iddewon, “Pe plant Abraham a fydddech, gweithredoedd Abraham a wnaech;” y gellir dweud wrth Ymneilltuwyr Cymru heddiw, os ydych am fod yn blant teilwng o'ch tadau rhaid i chwi gyfranogi o'u hysbryd a chyflawni eu gweithredoedd.

DARLITH.

CYMANFAOEDD (M.C.) ABERYSTWYTH.

(TRADDODWYD YN 1913).

UN o'r enwau a roddir ar Gymru yw Gwlad y Cymanfaoedd a'r Uchwyliau. Y mae'r enw yn ddigon priodol ar gyfrif amllder y Cymanfaoedd, a'u dylanwad er dyrchafu Cymru mewn ystyr foesol a chrefyddol.

Ffrwyth y Diwygiad Methodistaidd yw Cymanfaoedd y Cyfundeb. Dechreuodd y symudiad pwysig a elwir y Diwygiad Methodistaidd yng Nghymru yn y flwyddyn 1736, trwy offerynoliaeth personau unigol heb awdurdod unrhyw Gymanfa na Phwyllgor.

Cychwynnodd y mudiad yn Lloegr trwy Wesley a Whitfield, ac yng Nghymru trwy Howell Harris a Daniel Rowland.

Dechreuodd Howell Harris ar ei waith yn Sir Frycheiniog, a Daniel Rowland yn Sir Aberteifi, oddeutu yr un adeg, yn annibynnol ar ei gilydd, ac heb i'r naill wybod am y llall.

Profodd y Diwygiad o'r cychwyn yn llwyddiant mawr. Ymhen ychydig o flynyddoedd yr oedd nifer y dychweledigion yn rhifo miloedd, a'r Pregethwyr, neu y Cynghorwyr, fel y gelwid hwynt, yn amlhau.

Fel yr oedd y gwaith yn llwyddo, cododd yr angenrheidrwydd am i'r arweinwyr gyfarfod â'i gilydd

er mwyn gwneud trefniadau i hyrwyddo y gwaith yr oeddent wedi ymaflyd ynddo, ac o'r cyfarfodydd achlysurol hyn y tarddodd y Gymanfa a'r Gymdeithasfa.

Cynhaliwyd y Gymanfa gyntaf yng Nghymru yn Watford, yn agos i Gaerffili, mewn capel a berthynai i'r Annibynwyr, ar ochr y ffordd fawr, rhwng Caerffili a Chaerdydd, Ionawr 5, 6, 1743.

Dewiswyd y lle hwn i gynnal y Gymanfa gyntaf oherwydd fod boneddwr, un o gyfeillion y Diwygiwr, yn byw yn y gymdogaeth, yn nhŷ yr hwn y lletyai aelodau y Gymanfa.

Whitefield oedd Cadeirydd y Gymanfa, ac yr oedd chwech o bregethwyr yn bresennol ynddi.

O'r Gymanfa gyntaf yn 1743 hyd yn awr y mae cannoedd lawer o Gymanfaoedd wedi eu cynnal yng Nghymru, ac y mae y gwaith a wnaed drwyddynt a'r dylanwadau daionus a deimlwyd ynddynt yn aros hyd heddiw, ac yn debyg o aros am genedlaethau lawer.

Nid oes dref na chymdogaeth weddol boblog yng Nghymru nad yw Cymanfa rywbyrd wedi ei chynnal yno, ac mewn llawer ohonynt fwy nag unwaith.

Y mae rhai trefydd wedi cael y ffrainc o groesawu y Gymanfa yn aml. Y lleoedd y bu amlaf ynddynt ydyw Aberystwyth, Bala, a Llangeitho.

Nid Cymanfa yw yr hen enw ar y cynulliadau hyn. Yr enw cyntaf oedd Association. Yr oedd y Tadau yn hoff o ddefnyddio geiriau Saesneg ynglŷn â'u trefniadau. Newidiwyd y gair Association yn fuan i Associasswn, ac o'r gair hwn y daeth yr enw Sasiwn, enw sydd wedi aros hyd heddiw.

Ymhen amser galwyd yr Association yn Gymdeithasiad, ac yn ddiweddarach yn Gymdeithasfa, ac yn fwy diweddar eto daeth yr enw Cymanfa i arferiad.

Cyfyngir yn awr y gair Cymanfa i'r Gymanfa Gyffredinol a gynhelir yn flynyddol, a gelwir y Gymanfa Chwarterol yn Gymdeithasfa. Dyma yr enw priodol arni, a'r enw a gynhwysir yn y Weithred Gyfansoddiadol, y Weithred sydd yn penderfynu Cyfansoddiad y Cyfundeb mewn ystyr gyfreithiol.

Nid wyf yn bwriadu rhoddi hanes pob Cymanfa gynhaliwyd yn Aberystwyth, ond rhoddi yn unig cipdrem arnynt yn eu 1. Amseriad; 2, Trefniadau; 3, Gweithrediadau; 4, Pregethau.

I. AMSERIAD.

Cynhaliwyd y Gymanfa gyntaf yma yn 1784, a'r olaf yn 1912. Yn ystod y cyfnod rhwng y gyntaf a'r olaf, sef cyfnod o 128 o flynyddoedd, cadwyd o leiaf 54 o Gymanfaoedd o wahanol natur yn Aberystwyth.

Teg ydyw dweud nad oes sicrwydd hollol am y nifer nac am yr adēg y cadwyd pob un ohonynt. Nid oes cofnodion i'w cael o'r Cymanfaoedd cyntaf fu yma. Yn ôl pob tebygolrwydd ni chedwid cofnodion o weithrediadau hen Gymanfaoedd y Cyfundeb, o leiaf yn Neheudir Cymru.

Yr oedd Howell Harris yn ysgrifennu yn ei Ddyddlyfr nodiadau manwl o'i hanes personol, ac o amgylchiadau ynglŷn â'r Cyfundeb yn ei oes, ac y mae llawer o wybodaeth am y Cyfundeb a'i gychwyniad wedi ei wneud yn hysbys trwy y nodiadau

hyn. Ond nid oes yn Ysgrifeniadau Trefecca unrhyw hysbysrwydd am hen Gymanfaoedd Aberystwyth am y rheswm fod Howell Harris wedi marw un mlynedd ar ddeg cyn y Gymanfa gyntaf yma.

Cafodd y Gogledd well mantais yn y cyfeiriad hwn na'r De ar ôl marwolaeth Howell Harris, trwy wasanaeth Mr. Charles o'r Bala.

Yn 1785 ymunodd Mr. Charles â'r Methodistiaid, a phrofodd ei hun yn drefnydd rhagorol trwy ei oes. Cadwodd yn ofalus gofnodion o weithrediadau Cymanfaoedd y Gogledd o'r flwyddyn 1785 hyd ei farwolaeth yn 1814, ac yr oedd yn eu dilyn yn gyson.

Byddai yn fynych mewn Cymanfaoedd yn y Deheudir, ond nid oedd yn teimlo cymaint o ddiddordeb ynddynt ag yr oedd yn y rhai a gedwid yn y Gogledd, ac oherwydd hynny nid oedd yn cadw nodiadau o'u gweithrediadau.

Ni feddai y Deheudir ŵr cyffelyb i Mr. Charles ynglŷn â'i Chymanfaoedd hyd y flwyddyn 1813, pan y dewiswyd Mr. Ebenezer Richard, Tregaron, yn Ysgrifennydd y Gymanfa yn y De,—gŵr tebyg i Mr. Charles mewn amryw o gyfeiriadau. O'r flwyddyn 1821 hyd ei farwolaeth yn 1837 y mae cofnodion trefnus i'w cael o bob Cymanfa yn y Deheudir gan Mr. Richard, ac ni fu gwell cofiadur erioed yng ngwasanaeth y Cyfundeb. Dywedir fod clywed Mr. Richard yn adrodd mewn Cymanfa hanes a gweithrediadau y Gymanfa flaenorol yn ddigon o dal am deithio iddi o bellter ffordd.

Mewn pregeth angladdol iddo gwnaeth y Parch. William Morris, Tyddewi, sylw trawiadol yn y cys-

ylltiad hwn am Mr. Richard. Dywedodd yn ystod y bregeth fod gan Dafydd Frenin Jehosaphat yn gofiadur a Seriah yn ysgrifennydd, ac nad oedd Jehosaphat a Seriah ill dau ynghyd ddim cymaint a'n Ebenezer ni.

Nid oedd ychwaith gylchgronau na newyddiaduron yn cyhoeddi hanes Cymanfaoedd y Cyfundeb fel yn bresennol. Yr wyf yn nodi hyn er mwyn dangos nad oes sicrwydd hollol yn awr am bob dyddiad a ffaith ynglŷn â'r hen Gymanfaoedd.

Y mae, modd bynnag, ddigon o sicrwydd i'r Gymanfa gyntaf gael ei chynnal yma yn y flwyddyn 1784. Yr oedd hyn saith a deugain o flynyddoedd ar ôl cychwyn y Diwygiad Methodistiaidd, un a deugain o flynyddoedd ar ôl y Gymanfa gyntaf yn Watford, a blwyddyn cyn i'r capel cyntaf gael ei adeiladu yn y dref, a blwyddyn cyn i'r Ysgol Sabothol gael ei chychwyn yng Nghymru.

Yr oedd y tô cyntaf o'r tadau, oddigerth Howell Harris, eto yn fyw, sef Daniel Rowland, William Williams, Peter Williams, a Howell Davies, y rhai oeddynt erbyn hyn yn dechrau heneiddio a llesgáu. Yr oedd yr ail do, gan gynnwys Jones, Llangan, Dafydd Morris, ac eraill, yn amlwg yn y Cyfundeb; a'r trydydd tô, gan gynnwys Robert Roberts, Ebenezer Morris, a John Elias, wedi eu geni, ond heb ddechrau ar eu gwaith.

Yr oedd deg o Fethodistiaid ar y pryd yn Aberystwyth, ac yn aelodau o'r eglwys yn Rhydyfelin.

Nid oedd un capel Ymneilltuol yn y dref, ac yr oedd eglwys newydd yn cael ei hadeiladu gyferbyn a'r fynedfa i'r fynwent o Great Darkgate Street.

Cymanfa Chwarterol oedd yr un yn 1784, a Chymanfaoedd Chwarterol oedd y rhan fwyaf o'r rhai a gynhaliwyd yma. Yr oedd yn yr hen amser, heblaw y Gymanfa Chwarterol, un arall a elwid yn Gymanfa Achlysurol, a chafwyd nifer ohonynt yma.

O'r flwyddyn 1812 hyd 1843 cafwyd Cymanfa bob blwyddyn yn gyson yma, a rhwng 1843 a 1864 bob tair blynedd.

Yn 1839 a 1841, cafwyd Cymanfa wahanol i'r rhai Chwarterol ac Achlysurol, a alwyd yn Gymanfa Gorfforedig. Ychydig o'r rhai hyn fu yng Nghymru. Y rheswm amdanynt oedd awydd am fwy o gydweithrediad rhwng y De a'r Gogledd, ac am fod cynrychiolwyr ynddynt o'r ddwy Dalaith fel ei gilydd, galwyd hwy er eu gwahaniaethu oddi wrth y Cymanfaoedd Chwarterol yn Gymanfa Gorfforedig. Tair yn unig a gafwyd ohonynt, sef y gyntaf yn 1839, yr ail yn Llanidloes, a'r drydedd eto yn 1841.

Ym mhen pum mlynedd ar hugain ar ôl hynny, cafodd yr un ysbryd gorff newydd yn y Gymanfa Gyffredinol gyntaf a gynhaliwyd yn Abertawe yn y flwyddyn 1864. Cynhaliwyd tair o'r Cymanfaoedd Cyffredinol yma, sef 1866, 1878, a 1901.

Cyfarfu aelodau y Gymanfa gyntaf yn eu pwyllgorau neu gyfarfodydd neilltuol mewn ystafell yn y Talbot Hotel, a safai yr adeg honno fel yn awr ym Market Street, gydag ystablau helaeth tu ôl i'r tŷ, yn cyrraedd hyd at Pier Street. Dyma'r tŷ lle yr arferai boneddigion a thirfeddianwyr y Sir aros, ac yr oedd amryw o'r dosbarth hwn yr adeg honno yn aelodau gyda'r Methodistiaid. Ymhlith y rhai gellir enwi Mr. Lloyd, Bronwydd, a Mr. Bowen, Llwyn-

gwair. Yr oedd y ddau foneddwr hyn, gydag eraill o'r un dosbarth, a nifer o offeiriaid a chynghorwyr, yn bresennol yn y Gymanfa, ac yn cymryd rhan yn ei gweithrediadau yn y Talbot Hotel.

Cymanfa fendithiol oedd y gyntaf. Bu arddeliad amlwg ar y weinidogaeth. Cadwyd cyfarfod gweddi drwy gydol un noson yn y Market Hall, a safai lle y mae y Town Clock yn awr. Mewn canlyniad i'r Gymanfa ychwanegwyd at nifer y Methodistiaid yn y dref, ac yn y flwyddyn ddilynol adeiladwyd y capel cyntaf yma.

Yn y Cymanfaoedd ar ôl y gyntaf yr oedd y Pwyllgorau yn cael eu cadw yn y capel; ac wedi i'r gwaith ychwanegu, fel yr oedd angen am ddau gyfarfod ar yr un adeg, rhoddai ein brodyr y Wesleaid eu capel yn Queen Street at wasanaeth y frawdoliaeth hyd y flwyddyn 1862, pan yr adeiladwyd Siloh.

Yn yr awyr agored y byddai y pregethu o'r cychwyn. Y tro cyntaf, sef yn 1784, yr oedd yr oedfeun yn Penmaesglas, tir agored yr adeg honno, ond sydd yn awr yn cynnwys yr ystrydoedd o Prospect Street hyd at South Marine Terrace.

Yn y Cymanfaoedd dilynol cynhelid yr oedfeun mewn cae yn ymyl y capel, sydd yn awr yn cynnwys Powell Street, William Street, a George Street. Parhaodd yma am flynyddoedd.

Yn ddilynol aed a'r oedfeun i Tanycae, neu y Traeth, fel y dywedir mewn rhai hen adroddiadau, ac ôl hynny i'r Morfa, sydd yn cynnwys rhan o'r Queen's Road. Cedwid yr oedfeun yma hefyd am flynyddoedd.

Unwaith ar ôl y Morfa cadwyd Cymanfa yn y Smithfield, ac unwaith arall mewn cae tu ôl i gapel y Pabyddion.

Yn y blynyddoedd diweddaraf cadwyd yr holl oedfeuron yn y capelau. Digwyddai weithiau i'r hin yn ystod yr oedfeuron droi yn anffafriol; a phryd bynnag y cymerai hynny le, yr oedd gwahanol enwadau Ymneilltuol y dref yn rhoddi yn ewyllysgar eu capelau at wasanaeth y Cyfundeb, ac ynddynt yn gystal a'r Tabernacl y byddai yr oedfeuron.

II. Y TREFNIADAU.

Pethau diweddar mewn cymhariaeth ydyw Rheolau Sefydlog, Rhaglen a Phwyllgor y Gymanfa.

Nid oedd angen amdanynt ynglŷn â'r hen Gymanfaoedd. Am gyfnod maith yr unig drefniad angenrheidiol o du y Gymanfa oedd ethol Llywydd neu Gadeirydd. Tad y Gymanfa oedd yr hen enw ar y Llywydd. Dyma'r enw roddai Howell Harris arno ei hun, gan mai efe oedd yn ei ddydd yn eu rheoli a'u harwain.

Mae yr un enw yn cael ei ddefnyddio gan Williams Pantycelyn yn ei farwnad i Daniel Rowland, lle y mae yn cyfeirio at ei fab Nathaniel Rowland, ac yn deisyf arno

“Bydd yn Dad i'r Associasiwn.”

Rhoddodd yr enw hwn le i un arall, a gwell, sef Cymedrolwr. Arferwyd hwn am gyfnod maith, nes y daeth rhyw hanner can mlynedd yn ôl yn arferiad i alw y Cymedrolwr yn Llywydd neu Gadeirydd.

Yr arfer oedd dewis Cymedrolwr yn eisteddiad cyntaf y Gymanfa, a'i ddewis am y Gymanfa honno yn unig. Parhaodd yr arferiad yn y Gogledd hyd 1855, ac yn y De hyd 1865, pryd y dechreuwyd ar y drefn bresennol o ddewis Cadeirydd am flwyddyn. Y mhlith eraill bu y rhai canlynol yn Gymedrolwyr yn Aberystwyth amryw weithiau: John Williams, Lledrod; David Charles, John Evans, Ebenezer Morris, a Thomas Richards. Ebenezer Richard oedd yr Ysgrifennydd am flwyddoedd. Dewiswyd John Walters i'w gynorthwyo, ac ar farwolaeth Mr. Richard yn 1937, penodwyd Mr. Walters yn ei le, a parhaodd yn Ysgrifennydd hyd 1869. Dewiswyd David Charles Davies, M.A., am rai blynyddoedd i weithredu gyda Mr. Walters. Ar farwolaeth Mr. Walters dewiswyd Thomas Phillips am flwyddyn, ac yn 1870 Griffith Davies, yr hwn a weithredodd hyd 1884, pryd y penderfynwyd ar y trefniad presennol o newid yr Ysgrifennydd bob tair blynedd.

Yr oedd y trefniant ynglŷn â'r Pregethwyr fyddai yn cymryd rhan gyhoeddus yn yr hen Gymanfa oedd yn wahanol i'r hyn ydyw yn awr. Nid y lle y cynhelid y Gymanfa ynddo fyddai yn dewis ac yn gwahodd pregethwyr iddi. Yr oedd hawl gan bob pregethwr yn y Gogledd a'r De i fod yn bresennol ynddynt hyd o fewn yr hanner can mlynedd diweddaf.

Trefnai Cymanfa y Gogledd y pregethwyr o'r Dalaith honno oedd i fod yn bresennol yma, a gwnai Cymanfa y De yn gyffelyb gyda Chymanfaoedd y Gogledd.

Mewn perthynas i drefniadau y lle ynglŷn â'r Gymanfa, swyddogion eglwys Rhydyfelin fyddai yn

trefnu hyd 1798. Er i'r capel cyntaf gael ei adeiladu yma yn 1785, yn 1798 y sefydlwyd y Tabernacl.

Yr oedd swyddogion a holl aelodau yr eglwys, ar ôl ei sefydliad yn mawrygu y Gymanfa; ac er ei bod am gyfnod yn dod yma bob blwyddyn, nid oedd neb yn blino arni. I'r gwrthwyneb ystyriai pawb fod cynnal Cymanfa yn gosod bri ar yr eglwys ac ar y dref. Yr oedd yn cael ei hystyried yn gyffredinol fel amgylchiad pwysig yn y dref. Clywais foneddiges, aelod o Eglwys Loegr, a dreuliodd ei holl oes yn y dref yn adrodd ei hatgofion am yr hen Gymanfaoedd, ymhlith y rhai y dywedai bod ei mam pan oedd yn ieuanc yn ei chymryd i Tanycae i gael golwg ar y dorf fawr oedd yno yn gwrando ar John Elias ac eraill o gewri y pulpud yn pregethu.

Yr oedd pob Cymanfa yn gofyn llawer o baratoadau ar ei chyfer. Rhennid y gwaith rhwng nifer luosog o'r aelodau, ac ystyriai pawb ohonynt ei bod yn fraint i gyflawni eu rhan o'r gwaith.

Dengys hen gyfrifon yr eglwys fod y capel a'r ffenestri yn cael eu glanhau o flaen pob Cymanfa—fod pob atgyweiriad angenrheidiol yn yr adeiladau yn cael eu cwblhau—fod *gravel* glân yn cael ei ddodi o flaen y tŷ capel, a gofal mawr fod popeth ynglŷn â'r capel a'r tŷ capel yn drefnus yn ystod y cyfarfodydd.

Byddai paratoi cyffelyb yn nhai yr aelodau, yn enwedig y tai lle byddai aelodau y Gymanfa yn lletya.

Y mae rhestr o drefniadau lleol ynglŷn ag un Gymanfa wedi ei chadw. Y mae dros 60 mlwydd oed, ac y mae honno, mi gredaf, yn arddangos paratoadau a threfniadau arferol yr eglwys ar gyfer pob Cymanfa.

Gan mai yn yr awyr agored yr oedd yr oedfeunon, yr oedd paratoi *stage* yn orchwyl pwysig. Y ddau weinidog, y Parchn. Edward Jones ac Edward Hughes oedd yn dewis y lle i godi y *stage*. Yr oedd tri ar ddeg o frodyr yn gyfrifol am y gwaith o'i chodi, dau o'r blaenoriaid yn borthorion iddi, a dau eraill yn borthorion i'r cyfarfodydd neilltuol yn y capel. Yr oedd holl athrawon yr Ysgol Sul i gadw trefn yn ystod yr oedfeunon, a'r holl flaenoriaid i dderbyn cyfraniadau yr eglwysi at y treuliau, a'r blaenor hynaf, Richard Jones, i fod yn gyfrifol fod y Beibl a Llyfr Hymnau ar y *stage* at wasanaeth y pregethwyr.

Trefnid i un ar ddeg o frodyr i sicrhau lletyau i'r dieithriaid, ac ugain eraill i ofalu am eu ceffylau, gan mai marchogaeth y byddai y rhan fwyaf o'r pregethwyr, ac ambell un a'i gyfaill yn dod mewn *gig*. Rhaid dweud fod gofal arbennig yn cael ei ddangos am geffylau y pregethwyr. Yr oedd holl *hotels* y dref, ac amryw o dafarndai, yn cael eu sicrhau ar eu cyfer. Am ran o ddau ddiwrnod byddai saith o frodyr yn aros ar y bont i dderbyn ceffylau pregethwyr o'r De, a saith eraill ar y North Parade i dderbyn y rhai o'r Gogledd; a phedwar eto i ofalu fod y ceffylau yn yr ystablau gwahanol yn cael ymgeledd briodol, a dau eraill i arolygu yr holl drefniadau ynglŷn â'r ceffylau. Ymhlith yr ugain oedd yn gyfrifol am y gorchwyl hwn, yr oedd amryw o fasnachwyr mwyaf cyfrifol y dref.

Yr oedd paratoi mwy pwysig na'r rhai hyn, ac o natur wahanol. Treulid cyfarfodydd yr eglwys am dymor cyn y Gymanfa i sôn amdani, a'r cyfarfod-

ydd gweddi i ofyn am fendith arni, a'r un modd ar aelwydydd yr aelodau.

Yr oedd y tai lle y lletyai y dieithriaid yn agored noson gyntaf y Gymanfa i bawb a ewyllysiai fyned yno er clywed y pregethwyr yn arwain yr addoliad teuluaidd, ac yn gofyn am wyneb y Nefoedd ar y Gymanfa. Yr oedd cyrchu mawr i'r amcan hwn i dŷ Mr. Robert Davies, gan mai yno yr oedd John Elias, Thomas Richards, ac eraill o gewri y Gymanfa yn lletya.

Bu arferiad mewn bri am gyfnod maith, sef rhannu yr Ysgol Sul yn adrannau i ddal ar y gwa-hanol oedfeun er mwyn ail-adrodd y pregethau yn yr Ysgol ar ôl i'r Gymanfa fyned heibio. Bu Mr. Henry Richard, A.S., pan yn egwyddorwas yn y dref gyda'r gwaith hwn. Yr oedd Mr. David Jones, y Bank, yn fedrus iawn hefyd gyda'r un gwaith.

Yr wyf yn cofio yn dda am Gymanfa 1864, oherwydd i'r dosbarth lle yr oeddwn ynddo gael ei benodi i ddal ar oedfa y noson gyntaf, yn yr hon y pregethodd Mr. Levi ar Ioan xv. 1; ac yr wyf yn cofio darllen yn yr Ysgol yr hyn a lwyddais i ysgrifennu o'r bregeth.

Yr oedd tuedd holl drefniadau'r eglwys i greu disgwyliadau mawr ynglŷn â'r Gymanfa cyn iddi ddod, ac i sicrhau parhad ei dylanwad ar yr eglwys a'r dref ar ôl iddi fyned heibio.

III. GWEITHREDIADAU.

O'r cychwyn y mae gwaith y Gymanfa yn gynwysedig mewn trefnu pethau amgylchiadol ac ym-drin â materion ysbrydol.

Ynglŷn â phethau amgylchiadol tu allan i'r Cyfundeb yn ystod yr hanner can mlynedd, ni fu ond dau gwestiwn gerbron y Gymanfa yma. Y cyntaf oedd yn y Gymanfa a gynhaliwyd yma yn 1808, sef, Cwestiwn carcharorion Prydain yng ngharcharau Ffrainc yn ystod rhyfeloedd rhwng Napoleon a'r wlad hon. Gwnaed yn ystod y Gymanfa gasgliad o ugain punt er cynorthwyo y carcharorion yn eu caledi.

Yn 1824 bu sylw ar sefyllfa caethion yn India Orllewinol, ac ystyriaeth ar y cwestiwn a ddylai y Cyfundeb wneud rhywbeth o blaid y mudiad am eu rhyddhad.

Mewn Cymanfa a gynhaliwyd yma yn 1790, bu achos poenus gerbron, yn dwyn cysylltiad â'r Parch. Peter Williams. Cyhuddid ef nad oedd yn uniawn-gred yn ei olygiadau ar rai o athrawiaethau yr Efrog, a bu ymdriniaeth frwd ar ei olygiadau mewn amryw o Gymanfaoedd, ac yn eu plith Gymanfa 1790 yma. Nathaniel Rowland, mab Daniel Rowland, oedd gwrthwynebydd Peter Williams. Gŵr o alluoedd disglair, ond gwahanol hollol i'w dad o ran ei gymeriad a'i ysbryd. Meddai ddawn ymadrodd helaeth, ac yr oedd yn ymfrostio yn ei ddawn. Gŵr ieuanc oedd Nathaniel Rowland ar y pryd, ac yr oedd yn anhawdd i ŵr o oedran a phrofiad a chrefyddoldeb ysbryd Peter Williams oddef i ddyn ieuanc dibrofiad a hunanol fel Nathaniel Rowland i wneud ymosodiadau eithafol arno. Bu siarad brwd ar y mater yn 1790, ond ni therfynodd y drafodaeth hyd y Gymanfa ddilynol yn Llandilo yn 1791, pryd y diarddelwyd Peter Williams o'r Cyfundeb. Yr

oedd Daniel Rowland oherwydd ei lesgedd yn analluog i ddilyn y Cymanfaoedd y blynyddoedd hyn. Pe byddai yn bresennol ynddynt y mae yn amheus a fyddai ei hen gyfaill a'i gydweithiwr yn cael y driniaeth a gafodd gan ei fab ac eraill. Ar ôl dychwelyd gartref o un Gymanfa dywedodd Nathaniel Rowland wrth ei dad ei fod wedi gwrthwynebu Peter Williams yno, a'r atebiad gafodd gan ei dad oedd, "Nat., Nat., ti gondemniaist dy well."

O'r achosion amgylchiadol ynglŷn â'r Cyfundeb, y mater mwyaf pwysig fu gerbron y Gymanfa yma oedd cwblhad y Cyffes Ffydd. Hwyrach mai dyma yr amgylchiad mwyaf pwysig yn hanes y Cyfundeb er y Diwygiad. Yr oedd yn golygu gwahanu pob cysylltiad â'r Eglwys Sefydledig, a sefydlu y Cyfundeb yn enwad Ymneilltuol newydd yng Nghymru, gyda phenderfynu safle a gweithrediadau yr Eglwys, y Cyfarfod Misol, a'r Gymdeithsfa.

Cymerodd hyn le mewn Cymanfa Achlysurol ym mis Mawrth, 1823, pryd yr oedd nifer luosog o weinidogion a blaenoriaid o'r Gogledd a'r De yn bresennol.

Yn ôl trefniadau a wnaed mewn Cymanfa flaen-
orol, daeth y cynrychiolwyr o'r ddwy dalaith yng-
hyd nos Lun, Mawrth iofed. Dechreuwyd ar y gwaith
bore Mawrth, yr 11eg o'r mis, yn nhŷ Mr. Robert
Davies. Yr oedd yn bresennol yno y gweinidogion
canlynol: John Williams, Lledrod, y Cadeirydd;
Ebenezer Morris, David Charles, Thomas Jones,
John Roberts, Llangwm; John Elias, John Hum-
phrey, Caerwys; John Hughes, Pontrobert; Michael
Roberts, Humphrey Gwalchmai, ac Ebenezer Rich-

ard, yr hwn a wasnaethai fel Ysgrifennydd. Ar ôl myned trwy y gwaith yn araf ac ystyriol, yn y Gymanfa yn y Tabernacl prynhawn y 13eg o Fawrth, a bore y 14eg, darllenwyd y Rheolau Disgyblaethol a Chyfansoddiad y Cyfundeb i'r holl frawdoliaeth, gan Ebenezer Richard; a'r Gyffes Ffydd rhan gan John Elias, a'r gweddill gan Ebenezer Richard; ac meddai Ebenezer Richard yn y Cofnodion o'r Gymanfa: "Cytunwyd gan yr holl Gorff yn unllais, gyda'r cytgoriad mwyaf hyfryd ar y cwbl oll, heb gymaint ag un llais croes nag un gwrthddadl;" ac ychwanegodd mewn llawysgrif fras yn y Llyfr Cofnodion: "Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel."

Y symudiad mwyaf pwysig ynglŷn â'r Cyfundeb nesaf at ffurfiad y Cyffes Ffydd, ydoedd Ymgorfforiad y Cyfundeb yn 1826, pryd y cwblhawyd y *Constitutional Deed*, neu y Weithred Gyfansoddiadol.

Daeth cwestiwn pwysig ynglŷn â'r Weithred hon gerbron y Gymanfa yma yn 1828. Darparwyd y Weithred gan gyfreithiwr profiadol yn Llundain. Yr oedd y gwaith yn gostus a thrafferthus. Cyrhaeddodd rhan y Deheudir o'r gost i £150. Daeth y cwestiwn gerbron y Gymanfa yn 1828, pa fodd i dalu pan nad oedd arian mewn llaw gan y Gymanfa. Symudwyd pryder y Gymanfa ar y pryd trwy i Mr. Robert Davies, un o flaenoriaid y Tabernacl, addaw talu y swm, gan adael i'r Gymanfa ad-dalu pan y byddai mewn cyfleustra i wneud hynny.

Yn 1839 cynhaliwyd Cymanfa Gorfforedig yma, yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ddwy Dalaith. Dywedir fod ynddi weinidogion a blaenoriaid o bob Sir yng Nghymru. Cwestiwn mawr y Gymanfa hon

oedd yr Athrofa. Penderfynwyd y diwrnod cyntaf fod angen am Athrofa er rhoddi addysg ar gyfer y weinidogaeth yn y Cyfundeb, a bod y Gymdeithasfa Chwarterol i fod yn gyfrifol am y draul ynglŷn â'r Athrofa. Yr ail ddiwrnod daeth cwestiwn llosgawl gerbron, sef lleoliad yr Athrofa. Yr oedd brodyr o'r Gogledd yn foddllawn iddi gael ei sefydlu yn Aberystwyth, Machynlleth, neu Llanidloes. Gwrthododd y brodyr o'r De yn bendant i gynnal na chynorthwyo Athrofa mewn unrhyw fan ond yn Trefecca. Canlyniad hynny fu i'r cwestwn gael ei adael, ac Athrofa'r Bala barhau fel yr oedd. Ymhen ugain mlynedd dygwyd y mater o uno yr Athrofeydd yn y Bala a Threfecca i sylw y Gymdeithasfa yn y ddwy Dalaith, pryd y cafwyd fod y Gogledd yn amharod i'r uniad. Ymhen deng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, cafodd y cwestiwn eto sylw y Cyfundeb. Erbyn hyn yr oedd y Gogledd yn barod i uno, ond y De yn amharod. Y tro diweddaf cafwyd trafodaeth ar y cwestiwn. Yr oedd y De yn barod i'r uniad a'r Gogledd yn amharod. Nid oes eisiau gwel-edigaeth proffwyd i weled pan y daw y cwestiwn y tro nesaf i sylw, fel y bydd raid iddo cyn hir amser, y bydd yr holl Gyfundeb yn barod i sefydlu Athrofa Ddiwinyddol yn Aberystwyth i wasnaethu y ddwy Dalaith, ac i gadarnhau y cynigiad a wnaed yma yn y Gymanfa Gorfforedig 1839.

Cafwyd Cymanfa gyffelyb yma yn 1841 i ystyried y Genhadaeth Dramor ag oedd wedi ei sefydlu gan y brodyr yn y Gogledd. Penderfynwyd yno i'r Deheudir gydweithredu a'r Gogledd, ac yn 1843 penderfynwyd yn derfynol o blaid y Genhadaeth gan

gynrychiolwyr o'r Gymdeithasfa yn y ddwy Dalaith a gyfarfu yma yn Ebrill, 1843.

Ni fu gwasanaeth ordeinio pregethwyr i holl waith y weinidogaeth yma cyn y flwyddyn 1871, sef trigain mlynedd ar ôl yr ordeiniad cyntaf yn 1811 yn Llandilo. Y rheswm am hynny oedd mai yn Sasiwn Awst y byddai ordeinio yn cymryd lle, tra y mae ym misoedd Mawrth a Mai y byddai'r Gymanfa yn cael ei chynnal yma.

Rhwng y blynyddoedd 1813 a 1838 cynhaliwyd Sasiwn Awst bob blwyddyn oddieithr 1836, yn Sir Aberteifi, ac fel rheol yn Llangeitho, ac yno o ganlyniad y byddai yr ordeinio yn cymryd lle.

Yn 1871 cafwy Sasiwn Awst yn Aberystwyth, a gwasanaeth ordeinio. Yr oedd y cyfarfod yn un arbennig ar amryw o ystyriaethau. Fel y cyfeiriwyd, dyma y gwasanaeth cyntaf o'r fath yma. Yr oedd yn arbennig ar gyfrif y nifer a ordeiniwyd, sef ugain o weinidogion, y nifer fwyaf a ordeiniwyd mewn Cymanfa yn ystod y trigain mlynedd blaenorol, a hefyd ar ôl hynny, oddigerth un tro. Yr oedd arbennigrwydd hefyd yn perthyn i weithrediadau y cyfarfod. Dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. W. Williams, Abertawe. Gweddiwyd gan y Parch. John Hughes, D.D., Lerpwl. Traethwyd ar Natur Eglwys gan y Parch. John Evans, Llanelli. Gofynnwyd y cwestiynau arferol o'r Cyffes Ffydd gan Dr. Owen Thomas. Traddodwyd y Cyngor gan y Parch. David Charles Davies, M.A., a therfynwyd y gwasanaeth drwy weddi gan y Parch. D. Howell, Abertawe. Yr oedd y Cyngor yn ardderchog, a chlywais un oedd wedi gwrandio miloedd o weddiau yn dweud mai

gweddi y Parch. D. Howell oedd y rhyfeddaf a glywodd yn ei oes faith.

Bu ordeinio arall yma yn Awst, 1880, pryd y darllenwyd y rhannau arferol o'r Ysgrythur gan Dr. Hugh Jones, Lerpwl. Traethwyd ar Natur Eglwys gan y Parch. Joseph Evans, Caerfyrddin. Holwyd y cwestiynau arferol gan y Parch. W. Williams, Abertawe. Traddowyd y Cyngor gan Dr. Saunders, a therfynwyd y gwasanaeth trwy weddi gan y Parch. Edward Matthews.

Yn y Gymanfa, Gorffennaf 1887, cafwyd gwasanaeth cyffelyb, pryd y darllenwyd rhannau o'r Ysgrythur gan y Parch. D. Evans, Gelligaer. Traethwyd ar Natur Eglwys gan y Parch. William John. Gofynnwyd cwestiynau gan y Parch. W. Powell, Penfro. Traddodwyd y Cyngor gan Dr. John Hughes, a gweddiwyd gan Dr. Saunders.

Ychydig o amser roddid gynt fel rheol i'r materion amgylchiadol mewn cymhariaeth i'r hyn a roddid i agweddau ysbrydol y Cyfundeb. Yr oedd y rhan yma o'r gwaith yn cynnwys cyfarfodydd i ymddiddan ag un neu ragor o weinidogion y Sir, fel yn y flwyddyn 1824, pryd yr oedd Ebenezer Morris yn adrodd ei brofiad yma gydag eneniad, ac Ebenezer Richard yn rhoi hanes yr Achos yn y Sir.

Byddai ymddiddan a Phregethwyr neu'r Llefarywr ieuainc yn aml yn cymryd lle yn yr hen Gymanfaoedd, a chynghorion difrifol yn cael eu rhoddi iddynt gan y Pregethwyr oeddent yn hŷn a mwy profiadol. Yr oedd y gwaith hwn yn cael ei ystyried yn bwysig, ac yng Nghymanfaoedd y dref hon, fel llawer eraill, rhoddwyd anogaethau a chynghorion

difrifol i bregethwyr y Sir ynglŷn â'u hymddygiadau. Ymhlith y Cynghorion cafwyd ambell ddarlith lem, —i ochelyd yr arferiad ddrwg o droi y gwallt, a dilyn ffasiwn yr oes mewn gwisgo a marchogaeth—pan yn marchogaeth yr oeddent i beidio codi y cyfrwy a gyrru fel clercod cyfreithwyr—peidio rhoi heibio eu galwedigaethau—peidio rhoddi cyhoeddiadau pell—peidio torri eu cyhoeddiadau—peidio pregethu yn faith, a sôn byth a hefyd am y Pabyddion—peidio galw ym mhob tafarn, nac aros ar gefnau eu ceffylau mewn drysau, fel arferai porthmyn annuwiol—peidio myned i'r ffeiriau, a darllen llyfrau llygredig.

Dengys yr enghreifftiau hyn fod hen arweinwyr y Cyfundeb yn hynod o eiddigeddus dros urddas y pulpud, ac yn cadw yn uchel safon y weinidogaeth yn eu plith.

Heblaw y gwaith a nodwyd, yr oedd fel rheol ym mhob Cymanfa un cyfarfod i ymdrin a phwnc athrawiaethol. Bu y priodoliaethau dwyfol am flynyddoedd yn destun ymdriniaeth mewn Cymanfaoedd yma a manau eraill yn y Deheudir. Yn 1820 a 1822 Hollwybodaeth Duw oedd mater yr ymdriniaeth; yn 1828 a 1829 Daioni Duw oedd y testun, ac yn 1830 Anghyfnewidioldeb Duw. Mr. David Charles oedd yn traethu orau ar yr athrawiaethau. Byddai pawb yn mwynhau ei sylwadau, ac Ebenezer Richard yn eistedd wrth y bwrdd fel ysgrifennydd yn aml yn foddfa o ddagrau pan yn gwrandaw ar Mr. Charles yn traethu.

Y mae hanes am un Gymanfa nodedig rhywbryd rhwng 1820 a 1822, pan oedd Hollwybodaeth Duw yn fater ymdriniaeth. Mr. Charles oedd y Cymed-

rolwr ar y pryd, ac yn lle agor yr ymdriniaeth ei hunan, fel yr oedd yr arferiad i'r Cymedrolwr i wneud, o barch i John Elias oedd yn bresennol, galwodd ar Mr. Elias i agor yr ymdriniaeth, yr hyn a wnaeth mewn modd meistrolgar, a dilynwyd ef gan amryw o aelodau y Gymanfa. Ar ddiwedd y cyfarfod cododd Mr. Charles ar ei draed, ac ar ôl canmol y sylwadau a wnaed ar y testun, sylwodd fod un wedd i'r pwnc heb ei gyffwrdd gan yr un o'r brodyr, sef Gwybodaeth Dŵw fel Bôd Anfeidrol a Hollwybodol amdano ei Hun, a thraethodd ei syniadau ar Wybodaeth Duw ohono ei Hun, ar ysbrydolerwydd ei natur, dirgelwch ei hanfod, a pherffeithrwydd ei gymeriad, yn y fath fodd fel yr oedd pawb yn y lle yn synnu, a Mr. Elias ar ei draed wedi ei gyffroi drwyddo. Tybiodd Mr. Charles fod Mr. Elias am wneud sylwadau pellach, a cheisiodd ganddo wneud hynny, ac atebodd yntau: "Mi fuasai yn rhyfyg ynof i ddweud yr un gair ar ôl y pethau rhyfedd a glywsom gennych chwi, ond carasem fyned i weddi," ac yng ngwres gweddi Mr. Elias y terfynwyd y cyfarfod.

Y gwaith mwyaf poblogaidd a phwysig hefyd yng Nghymanfaoedd Aberystwyth, fel mewn mannau eraill, oedd pregethu. Y mae pregethu mawr wedi bod yma ynglŷn â'r Cymanfaoedd, ac oherwydd hyn yr oedd trigolion y dref, o bob enwad crefyddol, ac o wahanol ardaloedd y Sir, a siroedd eraill, yn cael eu tynnu yma yn dyrfaoedd lluosog. Cafwyd yn aml dywalltiadau helaeth o'r glaw graslawn gyda'r weinidogaeth. Traddodwyd rhai o'r pregethau gorau a gyfansoddwyd yn yr iaith yma, a chafodd y pregethau hynny y gwrandawriad mwyaf astud.

Y mae'r pregethwr a'r gynulleidfa ar eu gorau mewn Cymanfa. Y mae'r gynulleidfa yn dylanwadu ar y pregethwr, yn ogystal a'r pregethwr ar y gynulleidfa, ac yn tynnu allan ymadferthoedd gorau y pregethwr. Dywedodd Mr. Gladstone fod huawdledd yn beth ag y mae yr areithydd yn ei gael oddi wrth y gwrandawyr yn gyntaf, ac yna yn ei roddi drachefn iddynt—yn ei gael yn ddiferynnau, ac yn rhoddi yn gawod yn ôl.

Mae'n sicr nad oes un wlad lle y mae cymaint o gynulliadau lluosog wedi ymgasglu na Chymru. Llwyddodd Mr. Gladstone, ac ychydig eraill, oherwydd eu safle a'u doniau areithyddol, i dynnu miloedd o wrandawyr ar adegau o gynhyrfiadau arbenig. Eistedd fel rheol y byddai eu gwrandawyr am awr neu ddwy. Ond ynglŷn â Chymanfaoedd Cymru, cerddai miloedd filltiroedd fore y diwrnod olaf ar gyfer yr oedfeun, a safent yn yr awyr agored am ddwy awr a rhagor deirgwaith yr un dydd, a cherddent filltiroedd drachefn wrth ddychwelyd gartref yn hwyr y dydd. Gwnant hyn i wrando, nd ar areithydd yn goglais eu teimladau, neu gynhyrfu eu chwilfrydedd, ond ar wŷr oedd yn dynoethi eu pechodau, yn condemnio eu hymddygiadau, ac yn ceisio, dan arweiniad dwyfol, eu harwain at Waredwr. Credaf mai Cymru yw yr unig wlad lle y mae hynny wedi cymryd lle, ac y mae y ffaith yn braw o wrogaeth y genedl i'r pulpud, ac o ddylanwad yr Efengyl ar y wlad.

Y mae miloedd yn gwrando yr Efengyl ymhob Cymanfa fu yma. Y mae yn anhawdd cyfrif cynulleidfa fawr yn yr awyr agored. Amcangyfrif yn unig

sydd yn bosibl. Dywedir mai y gynulleidfa fwyaf fu mewn Cymanfa oedd yr un Sasiwn Bangor, yn 1859, adeg y Diwygiad, pryd yn ôl yr amcangyfrif yr oedd deng mil ar hugain yn bresennol.

Nid oes neb wedi dweud fod y nifer hwnnw wedi bod mewn Cymanfa yma. Yn ôl yr *Evangelical Magazine* yr oedd cynulleidfa o ugain mil yma 1805. Yn ôl gohebydd yr *Hereford Times* yr oedd yn 1808 saith mil a hanner yn bresennol. Sais oedd y gohebydd, ac y mae tipyn o ragfarn i'w ganfod yn amlwg ar ei adroddiad. Rhaid fod mwy na'r nifer a noda ar faes y Gymanfa y dydd olaf. Yr oedd Mr. Charles o'r Bala yn bresennol yng Nghymanfa 1812, a dywed ef fod ugain mil ar y maes yn gwrando'r weinidogaeth. Yn 1823, Sasiwn y Gyffes Ffydd, yn ôl gohebydd *Goleuad Cymru*, yr oedd tair mil ar hugain o wrandawyr ar y maes, ac yn 1827 un fil ar bymtheg. Clywais fod yn ambell i Gymanfa ar y Morfa, ugain mil, neu oddeutu hynny, o wrandawyr, a chafodd y miloedd hyn o bryd i bryd gyfleusterau i wrando a mwynhau gweinidogaeth y pregethwyr mwyaf a fagodd Cymru, ac yn eu plith rai na fagodd yr un wlad eu gwell. Y mae hyn yn ein harwain at y pennawd olaf, sef

IV. Y PREGETHWYR.

Y mae pob pregethwr o fri a safle yn y Cyfundeb wedi bod yn pregethu yng Nghymanfaoedd y dref hon. Y mae cymwysterau arbennig yn angenrheidiol i fod yn bregethwr Cymanfa.

Y mae yr hen Emynwr, Dafydd Jones, o Gaio, wedi nodi y cymwysterau yn ôl ei farn ef yn amser cychwyniad y Cyfundeb mewn pennill fel y canlyn :

Pum peth wna Bregethwr gallant—
 Calon Peter, doniau Rowland,
 Corff Will Harri, ceffyl Benni,
 A phwrs y Porkyn gyda hynny.

Pennill digon sal o ran ei saerniaeth ydyw, ac nid i'w gystadlu a phenillion geir yn ei emynau.

Peter Williams oedd y Petr y cyfeiria ato. Daniel Rowland oedd y Rowland a enwir ganddo. Un o'r Cynghorwyr cyntaf oedd Will Harri, gŵr o gorff cadarn ac yn meddu llais cryf, a Chynghorwr arall o Sir Benfro oedd y Benni a enwir yn y pennill, ffermwr cyfrifol wrth ei alwedigaeth, yr hwn oedd ym marchogaeth ceffyl da yn ystod ei deithiau. Porkyn oedd enw gŵr cyfoethog yn byw ar y pryd yn Abertawe.

Pe buasem yn troi pennill Dafydd Jones i iaith y dyddiau hyn, byddai cymwysterau yn ôl ei farn ef yn darllen fel hyn,—duwioldeb amlwg, doniau disglairedd, corff cadarn, ceffyl golygus, ac amgylchiadau cysurus. Y mae gwasanaeth y ceffyl wedi darfod ers amser, ac erbyn hyn y mae addysg wedi dod yn gymhwyster pwysig i bregethwr. Ac yn ychwanegol at bob cymhwyster arall rhaid ychwanegu un o natur uwch, sef eneiniad dwyfol. Ac y mae hwn, yn ychwanegol at gymwysterau eraill, wedi bod yn feddiant i dô ar ol tô o bregethwyr y Cyfundeb o ddyddiau Howell Harris a Daniel Rowland hyd ein dyddiau ni.

Yn y Gymanfa gyntaf yn 1784 y pregethwyr oedd-
 ynt, David Jones, Llangan; William Davies, Castell-
 nedd; John Pierce, Llanidloes, a Dafydd Morris,

Twrgwyn,—dau offeiriad a dau gynghorwr. Ychydig o hanes William Davies sydd yn wybyddus. Yr oedd dair blynedd ar ddeg, neu oddeutu hynny, yn iau na Howell Harris a Daniel Rowland. Perthynai i'r ail dô o'r Tadau, ac yn wahanol i Daniel Rowland, William Williams, a Peter Williams, ni thorrwyd mohono allan o'r Eglwys Sefydledig, ond ni chyrhaeddodd safle uwch yn yr Eglwys na chiwrad. Bu farw yn 1787, ar ôl bod mewn cysylltiad â'r Methodistiaid am ddeng mlynedd ar hugain. Teithiodd lawer, a phregethai bob amser yn felus, ac weithiau yn hynod nerthol. Yr oedd yr offeiriad arall, David Jones, yn fwy adnabyddus na William Davies, ac yn well pregethwr. Gadawodd awdurdodau yr Eglwys yntau hefyd yn yr Eglwys trwy ei oes, a bu am y rhan fwyaf ohoni mewn cysylltiad â'r Methodistiaid. Teithiai lawer, a phregethai ym mhob cymdogaeth, mewn capelau ac yn yr awyr agored, lle bynnag y caffai gyfleustra i wneud hynny. Yr oedd llwyddiant mawr ar ei weinidogaeth, a bu yn foddion i argyhoeddi lluoedd. Dan ei weinidogaeth ef yr argyhoeddwyd y seraff bregethwr Robert Roberts, Clynnog.

Ar ôl marwolaeth Daniel Rowland, Dafydd Jones oedd y dylanwad mwyaf ymhlith y Methodistiaid, er fod Nathaniel Rowland yn hawlio awdurdod fel mab y Diwygiwr i reoli yng Nghymanfaoedd y Cyfundeb. Pregethwr melys oedd Dafydd Jones, a'r mwyaf toddedig o'r Tadau i gyd. Bu farw yn 1810, yn 75 mlwydd oed.

Ar ôl pregethu mewn Sasiwn yn y Bala, wrth ffarwelio a'i gilydd, dywedodd Mr. Charles wrtho,

“ Brysiwch yma eto, Mr. Jones bach, i ni gael ein bedyddio â'ch gweinidogaeth.”

Ceir syniad am gymeriad a hanes mewnol rhai o'r Tadau ym Marwnadau Williams Pantycelyn; ond gan i Williams farw o flaen Dafydd Jones nid oes modd cael hynny ynglŷn ag ef. Y mae Williams, modd bynnag, mewn dwy o'i farwnadau, yn cyfeirio at Dafydd Jones. Un ohonynt yw ei farwnad ar farwolaeth Daniel Rowland, lle y mae yn cyfeirio at ei fab Nathaniel ac yn dweud—

Bydd yn Dad i'r Associassiwn,
 Ac os teimli'th fod yn wan,
 Ti gai help gwir Efenglydd,
 Dafydd onest o Langan;
 Dodd y cerrig a'i ireidd-dra,
 A thrwy rym ei 'fengyl fwyn
 Gwna i'r derw mwyaf caled
 Blygu'n ystwyth fel y brwyn.

Hefyd yn ei farwnad i Mrs. Grace Price, o Watford, merch yng nghyfraith i'r boneddwr, yn nhŷ yr hwn y lletyai aelodau y Gymanfa gyntaf y mae cyfeiriad at Dafydd Jones fel hyn:—

Yn Llangan, o dan y pulpud,
 'Roedd ei ysbryd, 'roedd ei thre',
 Tra f'ai Dafydd yno'n chwarae
 'N beraidd ar delynau'r nef;
 Iesu'r *text*, a Iesu'r bregeth,
 Iesu'r ddeddf, a Iesu'r ffydd,
 Meddai Jones; a hithau'n ateb—
 Felly mae, a felly bydd.

Nid oedd Dafydd Jones yn flaenllaw yn y Cynadledau, ond y mae ei enw wedi dod i lawr y naill genhedlaeth ar ôl y llall gydag arogl hyfryd, ac wedi bod yn adnabyddus hyd heddiw fel yr Efenglydd o Langan.

Un o'r Cynghorwyr cyntaf oedd John Pierce, yr hwn oedd enedigol o Sir Gaernarfon. Pan yn ieuanc cerddodd o Borthmadog i Langeitho, pellter o bedwar ugain milltir, i glywed Daniel Rowland yn pregethu. Gwnaeth llawer eraill yr un peth; ond yn wahanol i eraill, arhosodd John Pierce yn Llan-geitho. Bu yn gwasnaethu am flynyddoedd mewn ffermydd yn y gymdogaeth. Ymunodd ag eglwys Llangeitho, a dechreuodd bregethu yno. O dan lawer o anfanteision daeth yn hyddysg yn yr iaith Saesneg, a bu yn cynorthwyo Robert Jones, Rhoslan, i gyfieithu gwaith Gurnal i'r Gymraeg. Y rhan olaf o'i oes bu yn byw yn Llanidloes hyd ei farwol-aeth yn 1793. Yr oedd yn bregethwr grymus, ac yn meddu dawn arbennig i gadw seiat.

Perthynai Dafydd Morris i'r un dosbarth o bregethwyr a John Pierce, ond yr oedd yn llawer mwy galluog a hysbys fel pregethwr.

Ganed Dafydd Morris yn Lledrod, yn 1744. Ar ôl dechrau pregethu symudodd i Dwrgwyn, ar gais yr eglwys yno, i bregethu iddi ac i ofalu amdani, neu fel y dywedir yn awr mewn amgylchiad cyffelyb, i fod yn fugail ar yr eglwys, ond heb gydnabyddiaeth ariannol am ei waith.

Yr oedd yntau yn hyddysg yn yr iaith Saesneg, yn ddarllenwr mawr, yn weithiwr caled, ac yn bregethwr rhagorol. Cynhwysai ei bregethau bob

amser syniadau cryfion, a thraddodai hwynt gyda theimladau gwresog.

Dafydd Morris oedd y mwyaf galluog o'r Cyng-horwyr yn ei oes, ac fel pregethwr yr oedd yn deilwng i'w osod yn yr un dosbarth a Daniel Rowland. Yr oeddynt ill dau yn gyfeillion mynwesol. Mynychent Gymanfaoedd yn y De a'r Gogledd, a bob amser pregethent ym mhob Cymanfa. Am ei safle fel pregethwr, digon yw dweud ei fod yn aml yn pregethu yn Llangeitho ar Sabothau y Cymundeb, yn lle Daniel Rowland, pan y casglai y miloedd yno o bob parth o Gymru.

Yr oedd ganddo lais cryf a swynol. Gwell llais, yn ôl tyb rhai, na'i fab, Ebenezer Morris.

Dywedodd un amdano ei fod wedi ei wrando yn pregethu saith ar hugain o weithiau mewn un flwyddyn, a bod pregeth newydd ganddo ym mhob oedfa. Byddai yn aml yn cyfansoddi amryw o bregethau ar yr un testun. Ar un testun cyfansoddodd saith o bregethau gwahanol.

Ysgrifennodd hefyd amryw o emynau sydd yn aros hyd heddiw.

Y mae i Dafydd Morris le mawr yn hanes y Cyfundeb, a byddai mwy o le wedi ei roddi iddo onibai fod ei fab yn cuddio dipyn arno. Y mae bron pawb pan yn sôn amdano yn pwysleisio y ffaith ei fod yn dad i Ebenezer Morris, un o'r pregethwyr mwyaf a fu yng Nghymru.

Ar ôl i drefniadau y Cyfundeb gael ei berffeithio, cynhaliwyd chwech o odfeun ynglŷn â phob Cym-anfa, sef y noson gyntaf, prynhawn yr ail, a thrwy gydol y dydd olaf. Yn ystod yr odfeun traddodid

deuddeg o bregethau gan ddeg o bregethwyr: wyth ohonynt yn traddodi un bregeth, a dau yn pregethu ddwywaith.

Fel rheol byddai yr un nifer o bregethwyr o'r Gogledd a'r De yn cymryd rhan gyhoeddus ynddynt, ac yn aml byddai y pregethwyr o'r Gogledd yn fwy lluosog na'r rhai o'r De.

Ymhlith y gweinidogion o'r Gogledd yn ystod y deugain mlynedd cyntaf, bu y rhai canlynol yn pregethu yma, sef, Charles o'r Bala; John Roberts, Llangwm; John Elias, Michael Roberts, Daniel Jones, Llanllechid; William Jones, Rhuddlan; Humphrey Gwalchmai, Llanidloes; Moses Jones, Lleyn; Robert Griffith, Dolgellau; John Hughes, Pontrobert; James Hughes, Lleyn; Owen Jones; Richard Lloyd, Beaumaris; Ffoulk Evans, Machynlleth; Thomas Owen, Môn; John Jones, Treffynnon; John Jones, Tremadog; Daniel Evans, Harlech; William Roberts, Amlwch; Griffith Solomon, Llanbedrog; Henry Rees.

Ac o'r De y rhai canlynol: Ebenezer Morris, Thomas Jones, Caerfyrddin; David Charles, John Evans, William Havard, Thomas Richards, Morgan Howell, William Evans, David Griffiths, Penfro; Richard James, Morgannwg; Richard Davies, Caio; John Bowen, Llandilo; David Meyles, Abergwaun; William Morris, David Howell, Thomas Evans, Llangammarch, ynghyda llaws eraill yn ystod y trigain mlynedd diweddaf.

Byddai rhai ohonynt yn pregethu ymhob Cym-anfa, ac ambell un yn pregethu ddwywaith.

Caffai Mr. Charles o'r Bala le amlwg yma yn yr oedfeuron cyhoeddus. Bu yma mewn amryw o Gymanfaoedd ar ôl iddo ymuno â'r Methodistiaid yn 1785. Yn y Gymanfa gyntaf ar ôl hynny yn Llangeitho, dywedodd Daniel Rowland amdano, "Rhodd yr Arglwydd i'r Gogledd ydyw Charles." Y mae y dywediad hwnnw wedi ei ail-adrodd lawer gwaith wedi hynny, gydag ychwanegiad, sef "mai rhodd yr Arglwydd i Gymru oedd Mr. Charles ac i'r byd hefyd." Y mae ei lafur yn hysbys i bawb ohonom ynglŷn â Chymdeithas y Beiblau, yr Ysgol Sul, y Geiriadur a'r Hyfforddwr. Yr oedd yn rhagori ymhlith y Tadau mewn dysgeidiaeth a diwinyddiaeth, ond nid mor amlwg ag amryw ohonynt fel pregethwr. Nid oedd yn meddu doniau areithyddol disglair, eto yr oedd yn pregethu yn wlithog, a'r cynulleidfaoedd yn aml yn ymdoddi o dan ei weinidogaeth. Yr oedd yn pregethu ym mhob Cymanfa yma yr oedd yn bresennol ynddynt, a chafodd yn 1794 a 1812 oedfeuron hynod o effeithiol.

Yr oedd lle amlwg yn cael ei roddi ym mhob Cymanfa i John Roberts, Llangwm, er na chyrrhaeddodd yn ei ddydd enwogrwydd ei frawd, Robert Roberts, Clynnog, na'i fab Michael Roberts.

Y mwyaf ym mhlith y pregethwyr o'r Gogledd oedd John Elias, prif areithydd y genedl, a'r pregethwr mwyaf poblogaidd gyda phob dosbarth o wrandawyr a fagodd Cymru. Yr oedd wedi ei eni yn bregethwr, a llafuriodd yn galed o dan anawsterau mawrion i gymhwyso ei hun ar gyfer y weinidogaeth. Meistrolodd yr ieithoedd Saesneg, Groeg ac Hebraeg, a daeth yn wŷr o ddiwylliant uchel. Yr

oedd yn ddyledus am ei addysg a llawer o'i ddiwylliant i Evan Richardson, oedd yn cadw ysgol yng Nghaernarfon; a chan fod y gŵr hwn yn enedigol o'r gymdogaeth, hwyrach na fydd gair amdano yn annerbyniol. Ganed Evan Richardson yn 1758, a bu farw yn 1824. Bu dan addysg mewn ysgol ramadegol yn Llanfihangel, ac ar ôl hynny yn Ystradmeurig. Daeth yn ysgolhaig gwyd, ac wedi bwriadu i fod yn offeiriad, ond ymunodd â'r Methodistiaid; ac ar ôl dechrau pregethu agorodd yn 1787 ysgol yng Nghaernarfon ar gyfer pregethwyr, fel y gwnaeth Dr. Lewis Edwards ar ôl hynny yn y Bala, a byddai bron pob pregethwr allai fforddio hynny yn mynd am ychydig o addysg i ysgol Evan Richardson yng Nghaernarfon. Yr oedd bob amser yn gwisgo yn dda, ac yn foneddigaidd yn ei holl ymddygiadau. Meddai ar lais swynol, ac yr oedd yn bregethwr hwyl-iog. Byddai yn pregethu ym mhob Cymanfa yn y Gogledd. Y mae Thomas Richards, Abergwaun, wedi rhoddi hanes un oedfa iddo mewn Cymanfa yn y Bala, pan yr oedd yn pregethu y bore ar ôl Matthew Wilks, gweinidog Saesneg ac enwog yn ei ddydd yn Llundain. Yr oedd llawer o enwogion y pulpud yn bresennol, a Thomas Richards wedi sylwi arnynt yn dychmygu beth oedd eu syniadau wrth edrych ar y pregethwr. Tybiai fod Prydderch o Fôn yn dweud mewn edmygedd, "Dyma bregethwr gwerth edrych arno." John Elias yn dweud, "Fy hen athraw annwyl, gobeithiaf y bydd ei Feistr gydag ef." Michael Roberts yn dweud yn amheus, "Tybed ai doeth yw rhoddi yr hen frawd mewn lle mor am-lwg." Lloyd, Beaumaris yn dweud, "Gobeithiaf

nad aiff y bregeth i'r wal ganddo." Testun y bregeth oedd, "Arglwydd y lluoedd a wna i'r holl bobl yn y mynydd hwn wledd o basgedigion." Ac fel yr oedd yn darlunio darpariaeth gyfoethog yr Efengyl, daeth y gwynt nefol ar y pregethwr a'r gynulleidfa, ac ym mhen amser gwelai Mr. Richard fochau Prydderch yn glasu; trwyn Jones, Ederyn, yn cochi; John Elias yn wylo fel plentyn; Lloyd, Beaumaris, yn gweiddi â'i holl nerth; Michael Roberts yn wyllt ym mraich ei dad; Mr. Wilks ar ei draed a'i ddwy-law i fyny, ac yn gweiddi cymaint a neb, heb ddeall yr un gair o'r bregeth.

Yr oedd dylanwad Evan Richardson yn fawr ar John Elias trwy ei oes. Arferai pan yn dechrau pregethu wneud ystumiau annymunol ar ei gorff, a gwneud ei lais yn annaturiol. Collodd y diffygion hyn o dan addysg Evan Richardson, a daeth o ran ei ddisgyblaeth yn hollol weddaidd mewn ymddangosiad a boneddigaidd yn ei holl ymddygiadau. Yr oedd yn feddyliwr clir, yn ymresymwr cadarn ac areithydd dihafal. Clywais dri o gedyrn y pulpud yn ei ddisgrifio. Gosodent i gyd arbenigrwydd ar ei lais, ei iaith, y traddodiad, a'i ysbryd pan yn pregethu. Dywedai William Roberts, Amlwch, ymhlith ei ragoriaethau, mai yr hyn a'i nodweddai fwyaf oedd ei edrychiad, ei ddistawrwydd, a'i fys, yr hwn a symudai yn gyflym yn ôl a blaen pan wedi ei gynhyrfu. Gwnai ddefnydd mawr o'i ddwy-law a'i fysedd.

Gwnaeth hynny yn effeithiol iawn mewn oedfa yma yn Tanycae pan yn pregethu ar "I hyn yr ymddangosodd Mab Duw, fel y datodaï weithredoedd diafol." Pan yn egluro gweithredoedd y diafol yr

oedd a'i ddwyllaw yn cylymu rhaffau bach (*reefers*) yr hwyl ag oedd uwch ei ben, a phan yn pwysleisio gwaith Crist yn datod, yr oedd gyda'r cyflymdra mwyaf yn datod cylymau y rhaffau. Y mae penillion Eben Fardd iddo yn werth eu hadrodd:

O na allwn ei ddarlunio
 I feddyliau'r oes a ddel,
 A disgrifio'i areithyddiaeth
 A ddiferai fel y mêl;
 Pan esgynnai i'r areithfa
 Tawai myrddiwn ger ei fron,
 A'i ddistaw wên yn creu teimladau
 Pob amrywiaeth prudd neu lon;
 Edrychai dro yn fud o amgylch
 Ar y dyrfa fa'i gerllaw,
 Saethai'i drem y fath ddylanwad
 A roddai'r lliaws yn ei law,
 Dywedai'r gair tynerai anian;
 Lawr a'i law ac wylai myrdd,
 Gwrol wgai, beilchion grynent,
 Gwelwai'r coegddyn ffol ei ffyrdd;
 Ei law godai bloedd gorfoledd
 A ddadseiniai trwy y llu,
 'Roedd hyd yn oed ei atal-dywedyd
 Yn gyfrwng o huawdledd cu.

I ni yn yr oes hon y pregethwr mwyaf tebyg iddo oedd Dr. Owen Thomas; ond dywedwyd wrthyf gan un a glywodd y ddau amryw weithiau, fod Elias filltiroedd o flaen hyd yn oed Dr. Owen Thomas.

Gan i mi gyfeirio at dri o'r Gogledd, goddefwch i mi wneud crybwylliad am dri o bregethwyr y Gymanfa o'r De.

Y mwyaf amlwg yn ei oes o holl bregethwyr y De oedd Ebenezer Morris. Ganed yn Lledrod, yn 1769, a bu farw yn 56 mlwydd oed, yn 1825. Ar ôl cael addysg dda sefydlodd fel ysgolfeistr yn Sir Frycheiniog. Dechreuodd bregethu yn Trecastell, ac yn fuan yn ei yrfa weinidogaethol dychwelodd i'w gartref yn Twrgwyn, ac ymroddodd yn hollol i'r weinidogaeth. Enillodd yn fuan boblogrwydd a dylanwad mawr. Daeth yn un o dywysogion y pulpud yng Nghymru. Dywedai John Elias amdano nad oedd neb yn debyg iddo, a bod yn werth i fynd i'r drafferth a'r gost o gadw Sasiwn bob wythnos yn unig er mwyn cael clywed Ebenezer Morris yn pregethu. Yr oedd yn ddyfnach meddyliwr nag Elias, ond nid yn gymaint o areithiwr; eto meddai ddoniau areithyddol o'r fath orau. Yr oedd pregethu yn naturiol iddo. Yr oedd ei ymddygiad urddasol a'i lais yn fanteisiol i'w enwogrwydd. Dywedodd Dr. William Rees nad oedd y sawl oedd heb glywed Ebenezer Morris yn gwybod beth oedd llais. Pregethai yn aml yn y Cymanfaoedd yma, a phan yr oedd yr oedfeunon yn y cae y tu ôl i'r Tabernacl, clywid ei lais o Penparcau yn rhwydd; ac yn ôl y "Tadau Methodistaidd," gan y Parch. J. Morgan Jones, byddai rhai yn clywed ei lais dair milltir o'r dref ar y ffordd fawr i Capel Sion. Yr oedd ei floedd yn lladd dynion, meddai William Roberts, Amlwch; a meddai allu rhyfeddol i ardderchogi gwirioneddau syml yr Efengyl. Pregethu yn fyr y byddai fel

rheol, gyda dau ben i'r bregeth. Efe oedd ffafr bregethwr Dafydd Phillips, un o hen gymeriadau y Tabernacl. Nid oedd yr hen frawd yn mwynhau llawer o weinidogaeth y pregethwr a feddai amryw o bennau i'r bregeth, am y rheswm mai dau fater yn unig fyddai gan Ebenezer Morris.

Yr oedd David Charles, Caerfyrddin, yn un o dywysogion urddasol y Gymanfa, ac yn mynychu y Gymanfa yn aml, gan fod ei ferch, Mrs. Robert Davies, yn byw yma. Yr oedd yn sefyll ar ei ben ei hun ymhlith ei frodyr, ac y mae hanes neilltuol yn perthyn iddo. Ganed ef yn 1762, a chafodd ym more ei oes addysg dda, a bu yn fasnachwr llwyddiannus yng Nghaerfyrddin. Pan yn bump ar hugain oed dewiswyd ef yn flaenor eglwysig. Meddai ddealltwriaeth glir am athrawiaethau yr Efengyl, a gallu arbennig i draethu arnynt. 'Doedd neb yn ei ddydd yn debyg iddo. Yn y Cyfarfodydd Misol a'r Sasiwn yr oedd pan yn flaenor yn sefyll ochr yn ochr â'r gweinidogion blaenaf, ac yn cymryd rhan fel hwythau pan y byddent yn ymdrin â'r athrawiaeth. Dechreuodd bregethu pan yn chwech a deugain oed, a chafodd ei ordeinio yn yr ordeiniad cyntaf ar ôl pregethu am ddwy flynedd a hanner yn unig, yr hyn oedd yn hynod eithriadol. Yr oedd fel yr haeddai yn cael lle amlwg ym mhob Cymanfa yma, ac yr oedd ei weinidogaeth bob amser yn llawn o'r meddyliau mwyaf prydferth a chyfoethog, ac yn hynod o dderbyniol gan y dosbarth mwyaf deallgar o'r gynulleidfa. Yn ei Draethodau Diwinyddol, dywed Dr. Lewis Edwards: "Ni chododd ymhlith plant gwragedd neb mwy na Charles o Gaerfyrddin er dyddiau

yr Apostolion—cododd rhai cymaint, ond nid neb mwy.” Nid oedd Dr. Edwards yn arfer dweud pethau ar antur, ac yr oedd yn gyfarwydd â gweithiau diwinyddion mwyaf blaenllaw yr Eglwys Gristnogol, ac y mae barn gŵr felly yn haeddu derbyniad. Cyhoeddwyd Cyfrol a Bregethau Charles, y rhai sydd yn parhau hyd heddiw yn etifeddiaeth gyfoethog yn llenyddiaeth y genedl.

Y mae'r Parch. Ebenezer Richards yn teilyngu gair wrth derfynu. Yr oedd yn cydoesi ag Ebenezer Morris a David Charles, ond yn iau na hwynt. Cafodd yntau addysg dda, a bu am dymor yn ysgolfeistr yn Sir Benfro, ac ar ôl hynny yn *tutor* yn nhŷ Mr. Bowen, Llwyngwair. Cafodd ei ordeinio yn 1811, pan yn ddyn ieuanc deg ar hugain oed. Priododd yn 1809, a symudodd i Dregaron, cartref ei wraig. Bu farw yn 1837, yn 55 mlwydd oed. Yr oedd yn un o'r dynion mwyaf gwerthfawr a defnyddiol a fu gan y Cyfundeb. Meddai ddoniau amrywiol, a gallu at bob math o waith. Bu am flynyddoedd yn Ysgrifennydd Cyfarfod Misol Aberteifi a'r Gymdeithasfa yn y De. Yr oedd cymhwyster arbennig ganddo i gadw Seiat a holi ysgolion, yn gystal ag arwain Cynadleddau ac i bregethu yr Efengyl. Yr oedd yn fawr o gorff, ac o ymddangosiad urddasol. Meddai ddawn ymadrodd rhwydd, ac yr oedd eneniad neilltuol ar ei weinidogaeth. Nid oedd hwyrach yn esgyn mor uchel a'i frawd, Thomas Richards, mewn rhai oedfeunon, ond caffai bob amser oedfeunon cymeradwy, a llwyddodd drwy ei oes i wylo yr Efengyl i galonnau ei wrandawyr.

Yr oedd yn cadw cyfrif manwl o'i lafur, a dengys hwn iddo yn ystod y ddwy flynedd ar hugain y bu yn y weinidogaeth bregethu 6,859 o weithiau, ar gyfar-taledd 312 bob blwyddyn. Bu mewn 700 o Gyfar-fodydd Misol, Cymanfaoedd a Chymanfaoedd Ys-golion, a theithiodd agos i 60,000 o filltiroedd.

Bu farw ychydig cyn Cymanfa Gwanwyn 1837 yma, pan yr oedd galar mawr ar ei ôl yn y dref, ac arwyddion o hynny yng nghapel y Tabernacl. Yng nghyfrifon Trysorydd yr Eglwys am y flwyddyn honno, cawn y geiriau canlynol: "For Black Cloth Crape, Holland, thread, &c., after Mr. Ebenezer Richards, £10 13s. 5d."

Wrth derfynu gallwn o galon gytuno â syniadau Islwyn yn ei gân i Langeitho:—

Os oes gan wledydd eraill eu henwogion,
 Os yw eu hymffrost yn eu cadfridogion,
 Ni chenfigennwn wrth eu ffrost ddaearol,
 Mae testun ein gorfoledd ni yn nefol;
 Ymffrosiant hwy mewn clodfawr faes-lywyddion,
 A ninnau a ymffrostiwn mewn angylion—
 Mewn dynion oeddynt megis nerthol engyl,
 Yn hedeg yn ffurfafen yr Efengyl.





**PRINTED AT
THE C. M. PRINTING OFFICE,
CAERNARVON.**



